ClwydAlyn

**Adroddiad Amgylcheddol, Cymdeithasol a Llywodraethu (ACLl)**
2025/2026




**ClwydAlyn.co.uk**

# Cynnwys

## Amgylcheddol

4 **Newid yn yr Hinsawdd** (Thema 1)
9 **Ecoleg** (Thema 2)
11 **Rheoli Adnoddau** (Thema 3)

## Cymdeithasol

15 **Fforddiadwyedd a Diogelwch** (Thema 4)
16 **Diogelwch ac ansawdd adeiladau** (Thema 5)
19 **Bodlonrwydd preswylwyr ac ansawdd gwasanaeth** (Thema 6)
28 **Cefnogaeth i Breswylwyr** (Thema 7)
32 **Creu Lleoedd** (Thema 8)

## Llywodraethiant

40 **Strwythur a Llywodraethiant** (Thema 9)
42 **Y Bwrdd** (Thema 10)
46 **Lles staff** (Thema 11)
52 **Cadwyn gyflenwi** (Thema 12)











# Cyflwyniad

**Roedd 2025/26 yn garreg filltir bwysig i ClwydAlyn wrth lansio ein Cynllun Corfforaethol 2025-2030 newydd, gan ailddatgan a chryfhau ein cenhadaeth: Gyda'n gilydd, byddwn yn Rhoi Terfyn ar Dlodi.**

Mae'r ymrwymiad newydd hwn yn adeiladu ar y cynnydd rydym wedi'i wneud ers i ni nodi ein cenhadaeth tlodi yn 2019, gan gydnabod bod tlodi ac anghydraddoldeb cymdeithasol ledled Gogledd Cymru yn parhau i dyfu. Mae ein Cynllun Corfforaethol newydd yn canolbwyntio ein hymdrechion a'n hadnoddau ar dair blaenoriaeth allweddol:

- **Rhoi diwedd ar ddigartrefedd**
- **Sicrhau bod preswylwyr a staff yn gallu byw mewn cartrefi cynnes**
- **Gweithio gyda phartneriaid i ddarparu mynediad at fwyd da a fforddiadwy ym mhob un o'n cymdogaethau**

Lansiwyd y Cynllun gyda chydweithwyr a phartneriaid ar draws Llywodraeth Cymru, llywodraeth leol, tai, addysg, a'r sectorau gwirfoddol a phreifat i annog mwy o gydweithio a chynyddu ein heffaith ar y cyd dros y pum mlynedd nesaf.

Dros y 12 mis diwethaf, rydym wedi parhau i wneud cynnydd cryf yn erbyn ein hymrwymiadau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu. Mae hyn yn cynnwys buddsoddi mewn cartrefi ynni-effeithlon sy'n cael eu cynnal a'u cadw'n dda ac sy'n fforddiadwy i'w gwresogi, ochr yn ochr â darparu rhaglen sylweddol o adeiladu tai newydd i helpu i fynd i'r afael â'r prinder tai.

Mae bod yn landlord da yn dal wrth galon popeth a wnawn. Rydym wedi parhau i weithio gyda thrigolion i siapio ein gwasanaethau, darparu cymorth drwy ein Cronfa Preswylwyr, ac ehangu mentrau sy'n cefnogi ein hamcanion bwyd da drwy ein partneriaeth â Well-Fed, gan gynnwys hybiau bwyd a loceri bwyd.

Mae'r flwyddyn hefyd wedi gweld newid gwleidyddol sylweddol yng Nghymru, gyda phlaid lywodraethol newydd a Senedd estynedig. Yn y flwyddyn i ddod, byddwn yn canolbwyntio ar feithrin perthynas ag Aelodau newydd o'r Senedd i helpu i sbarduno'r newid sydd ei angen i roi diwedd ar dlodi a chreu cymunedau cynaliadwy lle gall pawb fyw'n ddiogel, ffynnu a chyflawni eu dyheadau.

Mae'r adroddiad ESG hwn yn tynnu sylw at y cynnydd rydym wedi'i wneud dros y flwyddyn ddiwethaf o ran cyflawni ein cenhadaeth a'n blaenoriaethau, yn ogystal â'n huchelgeisiau ar gyfer y flwyddyn i ddod.

Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth am ein gwaith, neu edrych ar gyfleoedd i gydweithio, byddem wrth ein bodd yn clywed gennych chi.




# Amgylcheddol



Thema 1:

## Newid yn yr hinsawdd

### Gwella effeithlonrwydd ynni ein cartrefi

**Yn ClwydAlyn, rydym wedi ymrwymo i wneud cynaliadwyedd amgylcheddol yn rhan greiddiol o bopeth a wnawn.**

Mae hyn yn cynnwys y ffordd rydym yn gwneud penderfyniadau, yn datblygu fel sefydliad, ac yn rheoli ein gweithrediadau o ddydd i ddydd. Rydym hefyd eisiau annog a chefnogi ein cydweithwyr a'n preswylwyr i chwarae rhan weithredol yn yr ymrwymiad hwn.

Ein cenhadaeth yw mabwysiadu dull cyfannol o ymdrin â chynaliadwyedd amgylcheddol drwy weithio'n agos gyda'n cymunedau, ein preswylwyr a'n partneriaid i leihau ein heffaith amgylcheddol ar yr un pryd â chefnogi ein nod ehangach o roi terfyn ar dlodi.

Ein nod yw lleihau'r effeithiau negyddol y mae ein sefydliad yn eu cael ar yr hinsawdd ar yr un pryd â chael effaith gadarnhaol ar fioamrywiaeth a chynaliadwyedd ecolegol. Drwy wella cydnerthedd a lleihau risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd, ein nod yw diogelu ein trigolion a'n cartrefi wrth i ni weithio tuag at ddod yn sefydliad Sero Net erbyn 2050.

Mae ein Strategaeth Amgylcheddol a Chynaliadwyedd yn darparu fframwaith clir ar gyfer cyflawni'r uchelgeisiau hyn. Mae'n amlinellu amcanion hirdymor ar draws themâu amgylcheddol allweddol, wedi'u hategu gan dargedau tymor byrrach i'n helpu i fesur cynnydd. Drwy gamau gweithredu sydd wedi'u diffinio'n glir, rydym yn annog cydweithwyr i gyfrannu ar y cyd, gan sicrhau bod cynaliadwyedd yn cael ei wreiddio'n llawn ar draws y sefydliad.




## Ôl-osod ar gyfer y dyfodol

Yn 2025/26, fe wnaethom gwblhau asesiadau effeithlonrwydd ar draws ein 15 rhwydwaith gwres ac rydym yn bwrw ymlaen â chynlluniau i osod Unedau Rhyngwyneb Gwres (HIU) mwy effeithlon, gan helpu preswylwyr i elwa o ddefnydd is o ynni drwy systemau gwresogi cymunedol.

Mae ein rhaglen ôl-osod yn parhau i flaenoriaethu'r cartrefi lleiaf ynni-effeithlon, ar yr un pryd â chefnogi trigolion a allai fod yn ei chael hi'n anodd gwresogi eu cartrefi. Mae'r holl fesurau ôl-osod yn cael eu cyflawni yn unol â safonau PAS 2035 ac maent wedi'u cofrestru â chynllun sicrhau ansawdd TrustMark, sydd wedi'i gymeradwyo gan y Llywodraeth, gan sicrhau bod gwelliannau'n briodol, o ansawdd uchel ac wedi'u dylunio i sicrhau manteision effeithlonrwydd ynni hirdymor.

**Yn 2025-26, roedd cyfanswm y gwariant ar fesurau ôl-osod yn £3.25 miliwn.**

**Cwblhawyd 255 o asesiadau ôl-osod, a chafodd 180 o gartrefi eu huwchraddio.**

Roedd y gwaith yn cynnwys:

- **168 o Osodiadau paneli solar**
- **57 o Osodiadau storfa fatris**
- **180 o Systemau ynni deallus a synwyryddion amgylcheddol**
- **3 o Bympiau gwres ffynhonnell aer**
- **23 o Systemau Gwresogi Isgoch y Genhedlaeth Nesaf**
- **82 Atig wedi'u hinswleiddio**
- **15 o Waliau allanol wedi'u hinswleiddio**
- **6 o Waliau mewnol wedi'u hinswleiddio**
- **19 o Waliau ceudod wedi'u hinswleiddio**
- **18 o Doeau fflat wedi'u hinswleiddio**
- **24 o Gartrefi gyda Brics Aer Mecanyddol Airex**
- **77 o Gartrefi â goleuadau ynni isel**
- **41 o Ddargyfeirwyr solar i ddŵr poeth**

**Mae'r holl fesurau hyn yn gwella perfformiad ynni ein cartrefi.**

## ASTUDIAETH ACHOS



# Hwb ariannol i rwydwaith gwresogi Llys Eleanor

Mae Llys Eleanor, cynllun byw'n annibynnol pwrpasol ar gyfer pobl hŷn yn Sir y Fflint, wedi elwa o werth £100,000 o gymorth Cynllun Effeithlonrwydd Rhwydwaith Gwresogi (HNES), a gyfrannodd at welliannau effeithlonrwydd i rwydwaith gwresogi'r adeilad.

Roeddem yn gallu darparu arian cyfatebol ar gyfer y Cyllid Grant Cyfalaf i roi gwelliannau ar waith o astudiaeth optimeiddio ddiweddar, a oedd yn cynnwys gosod mesuryddion gwres, glanhau rhwydweithiau, a gosod Unedau Rhyngwyneb Gwresogi (HIU) mewn cartrefi unigol.

**Dywedodd Tom Boome, ein Pennaeth Arloesedd Technegol a Gwasanaethau Hinsawdd:**

*"Mae cyllid HNES wedi bod yn hollbwysig o ran ein galluogi i uwchraddio ein rhwydwaith gwresogi yn Llys Eleanor mewn ffordd wedi'i thargedu, gan gynnwys optimeiddio'r system.*

*"Mae'r astudiaeth optimeiddio a ariannwyd gan HNES wedi darparu gwersi sylweddol ynghylch y gwelliannau y gallwn eu gwneud, nid yn unig yn Llys Eleanor, ond hefyd i'n 15 rhwydwaith gwresogi arall yng nghynlluniau preswyl ClwydAlyn ledled Gogledd Cymru.*

*'Mae'r gwaith uwchraddio hwn yn gwella effeithlonrwydd, yn lleihau faint o ynni sy'n cael ei ddefnyddio ac yn helpu ein preswylwyr i reoli eu defnydd o wres yn well.'*



## Tracio ein cynnydd

Mae'r gwaith hwn yn cyfrannu at wella EPC (Tystysgrif Perfformiad Ynni) ein cartrefi, sy'n rhan hanfodol o'n hymrwymiad i ddarparu cartrefi cynnes y gall ein preswylwyr fforddio eu gwresogi:

| Sgôr EPC | # Eiddo (eu perchnogi a'u rheoli) | % o'n cartrefi |
|---|---|---|
| A | 630 | 9 |
| B | 1,490 | 21 |
| C | 2,538 | 34.5 |
| D | 860 | 12 |
| E | 39 | 0.5 |
| F | 0 | 0 |
| G | 0 | 0 |
| Ddim ar Gael | 205 | 3 |
| Ddim yn gymwys | 1,400 | 20 |
| **Cyfanswm** | **6,987** | **100%** |




**O'r 210 o gartrefi a ychwanegwyd gennym i'n portffolio yn 2026/26, roedd:**

**194** yn gartrefi ClwydAlyn o'r newydd yn sgorio cyfraddau EPC A

**16** yn gartrefi a oedd yno eisoes a gawsom drwy raglenni arian grant, gyda naw ohonynt yn EPC B a saith yn EPC C



Ymwelodd Jack Sargeant, a oedd yn AS dros Alun a Glannau Dyfrdwy ar y pryd, â'n datblygiad Porth y Gogledd o 100 o gartrefi fforddiadwy, sy'n defnyddio ynni'n effeithlon, ym mis Gorffennaf 2025. Roedd yr ymweliad yn gyfle iddo ddysgu mwy am y 'cartrefi gydol oes', a oedd wedi'u dylunio i fod yn hyblyg ac i ddiwallu anghenion newidiol trigolion, ac yn cynnwys technoleg gynaliadwy i sicrhau costau rhedeg is, gan gynnwys pympiau gwres ffynhonnell aer a phaneli solar.

*"Mae'r ffordd y mae'n defnyddio ynni'n effeithlon yn golygu ei fod yn wych i'r amgylchedd ac, o safbwynt ariannol, bydd yn ein helpu gymaint.'*
**Un o drigolion Porth y Gogledd**

## Lleihau carbon

Roedd ein dadansoddiad o ôl troed carbon o 2024 yn llinell sylfaen ar gyfer ein Strategaeth Amgylcheddol a Chynaliadwyedd ac rydym yn parhau i weithio tuag at y targedau a osodwyd i wreiddio'r broses lleihau carbon ym mhenderfyniadau ClwydAlyn, gyda swyddogion yn cael eu hyfforddi'n fewnol ar gyfrifo ac adrodd ar allyriadau carbon.



Drwy ddadansoddi ôl troed carbon, rydym wedi lleihau ôl troed carbon ein cartrefi lleiaf effeithlon, gan leihau ein hallyriadau **113.47 tunnell.**

Mae hyn yn cyfateb i blannu **5.150 o goed** y flwyddyn neu dynnu **75** o geir oddi ar y ffordd bob blwyddyn.



## Paratoi ar gyfer risgiau hinsawdd

Mae ein Strategaeth Amgylcheddol a Chynaliadwyedd yn cydnabod perygl llifogydd fel bygythiad allweddol sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd i gartrefi a thrigolion.

Rydym yn parhau i gryfhau ein dealltwriaeth o risgiau sy'n gysylltiedig â'r hinsawdd ar draws ein cartrefi, gan ddefnyddio mapiau hinsawdd, data eiddo a gwybodaeth weithredol i lywio penderfyniadau buddsoddi. Mae ystyriaethau o ran gwrthsefyll yr hinsawdd yn cael eu hymgorffori mewn gweithgareddau rheoli asedau, safonau cynnal a chadw a dylunio cartrefi newydd, gan helpu i leihau amlygiad i lifogydd ac effeithiau eraill yr hinsawdd yn y dyfodol.

Ochr yn ochr â hyn, rydym yn cynyddu ein dealltwriaeth o effeithlonrwydd dŵr a risgiau posibl o ran straen dŵr yn y dyfodol ar draws ein cartrefi.

Yn ystod cyfnod y strategaeth, byddwn yn asesu perfformiad dŵr ar draws ein cartrefi, yn datblygu dull rheoli dŵr ac yn nodi cyfleoedd i leihau defnydd a gwella fforddiadwyedd i breswylwyr.

Mae hyn yn cynnwys ôl-osod mesurau arbed dŵr mewn cartrefi presennol a sicrhau bod cartrefi newydd yn cael eu hadeiladu yn unol â safonau effeithlonrwydd dŵr uchel.

Rydym hefyd yn cryfhau ein dealltwriaeth o risg gorboethi ledled ein cartrefi wrth i'r tymheredd barhau i godi. Mae mapio risgiau hinsawdd, data eiddo a gwybodaeth weithredol yn cael eu defnyddio i nodi cartrefi a allai fod yn fwy agored i niwed, gan helpu i lywio buddsoddiad a chymorth i breswylwyr yn y dyfodol.

Mae ystyriaethau gorboethi yn cael eu hintegreiddio mewn asesiadau cyflwr stoc, rhaglenni ôl-osod a dylunio cartrefi newydd, gyda safonau cydnabyddedig ac arbenigedd yn helpu i sicrhau bod eiddo'n parhau i fod yn gyfforddus ac yn wydn mewn hinsawdd sy'n newid.



Thema 2:

# Ecoleg

## Gwella mannau gwyrdd a bioamrywiaeth

**Drwy ein Strategaeth Twf a'n Strategaeth Cynaliadwyedd (2025-2030), rydym wedi ymrwymo i greu a diogelu mannau gwyrdd sy'n cefnogi natur, yn cryfhau cymunedau ac yn gwella llesiant preswylwyr.**

Ar draws ein datblygiadau, rydym yn ceisio mynd y tu hwnt i ofynion cynllunio drwy sicrhau manteision amgylcheddol ochr yn ochr â chartrefi newydd.

Mae enghreifftiau diweddar yn cynnwys creu coetir pum erw a rhandiroedd cymunedol ym Mhen y Berth yng Ngwynedd, neilltuo tir ar gyfer mannau tyfu cymunedol yng Nghae Rhos ar Ynys Môn, a thrawsnewid tir sy'n anaddas i'w





ddatblygu yn y Rhyl yn rhandiroedd cymunedol. Yn Garden City, mae cynlluniau'n cael eu datblygu i gynyddu mannau gwyrdd o ansawdd uchel fel rhan o weithgarwch adfywio ehangach.

Ar hyn o bryd rydym yn asesu bioamrywiaeth ar draws ein safleoedd i sefydlu llinell sylfaen y gallwn ei defnyddio i fesur cynnydd. Gan ddefnyddio'r wybodaeth hon, byddwn yn gosod targed yn 2026 i gynyddu planhigion a bywyd gwyllt brodorol 20% ledled ein safleoedd corfforaethol erbyn 2030. Er mwyn cefnogi'r gwaith o gyflawni, byddwn yn rhoi Cynllun Rheoli Bioamrywiaeth ar waith ac yn gwreiddio blaenoriaethau bioamrywiaeth yn y gwaith o reoli asedau, cynnal a chadw tiroedd a dylunio datblygiadau newydd, gan sicrhau bod adferiad natur yn cael ei ystyried ar draws ein gweithrediadau.

## ASTUDIAETH ACHOS

## Manteision i Fywyd Gwyllt




Mae gosod mesurau ecoleg fel blychau adar ac ystlumod a 'phriffyrdd draenogod' yn ein datblygiadau adeiladu newydd yn gwneud gwahaniaeth go iawn i fywyd gwyllt brodorol.


Mae blychau adar ac ystlumod yn helpu i sicrhau ein bod yn gallu:

- Creu mannau nythu a chlwydo diogel
- Lleihau dirywiad rhywogaethau
- Gwrthbwyso colli cynefinoedd oherwydd y broses adeiladu
- Cynyddu amrywiaeth rhywogaethau lleol

Mae 'Priffyrdd Draenogod', sy'n fylchau bach 13x13cm rhwng ffensys, yn caniatáu i ddraenogod symud yn rhydd, gan sicrhau nad ydynt yn cael eu dal mewn gardd, drwy ddarparu rhwydweithiau cysylltu diogel.

Mae'r priffyrdd hefyd yn ei gwneud yn haws iddyn nhw chwilio am fwyd, dod o hyd i loches, dod o hyd i gymar a gwneud yn siŵr nad ydyn nhw'n cael eu gorfodi i fynd ar ffyrdd prysur.

## Lleihau llygredd a gwella ansawdd yr amgylchedd dan do




Rydym wedi ymrwymo i gynnal cartrefi a gweithleoedd diogel ac iach drwy fynd ati'n rhagweithiol i nodi a rheoli risgiau llygredd. Mae ein dull gweithredu'n cynnwys monitro a mynd i'r afael â materion fel lleithder a llwydni, asbestos, radon, ansawdd aer gwael dan do a defnyddio deunyddiau peryglus, wedi'u hategu gan brosesau arolygu, rheoli risg a chydymffurfio cadarn.

Rydym yn parhau i asesu ein cartrefi a'n swyddfeydd er mwyn deall yn well pa mor agored ydynt i beryglon amgylcheddol a blaenoriaethu gwelliannau lle mae eu hangen fwyaf. Mae hyn yn cynnwys rhaglen fesul cam o fonitro ac adfer radon, cynnal system rheoli asbestos gyfredol, a sicrhau bod deunyddiau peryglus yn cael eu trin a'u gwaredu'n ddiogel ac yn gyfrifol.

Drwy ein Strategaeth Cynaliadwyedd, rydym yn cryfhau ein dealltwriaeth o ansawdd aer dan do a risgiau llygredd ehangach ledled ein cartrefi a'n gweithrediadau. Dros gyfnod y strategaeth, byddwn yn mapio risgiau posibl, yn datblygu cynlluniau gwella wedi'u targedu ac yn gwreiddio mesurau atal llygredd mewn gweithgareddau rheoli asedau, cynnal a chadw a chynllunio busnes. Bydd hyn yn ein helpu i greu amgylcheddau byw iachach i breswylwyr, lleihau effeithiau amgylcheddol a chefnogi gwelliant parhaus ar draws ein sefydliad.



Thema 3:

# Rheoli adnoddau

## Lleihau gwastraff a chefnogi economi gylchol

Mae ein Strategaeth Cynaliadwyedd hefyd yn llywio ein dull o leihau gwastraff, cynyddu ailgylchu a gwneud gwell defnydd o adnoddau ledled ein datblygiadau, ein gwaith atgyweirio, ein gweithgareddau cynnal a chadw a'n gweithrediadau corfforaethol. Mae ein dull gweithredu yn canolbwyntio ar atal gwastraff lle bo hynny'n bosibl, ailddefnyddio ac ailgylchu cymaint â phosibl, a lleihau'r ddibyniaeth ar dirlenwi.

Rydym yn parhau i weithio'n agos gyda'n contractwyr a'n partneriaid i wella arferion rheoli gwastraff a chryfhau monitro perfformiad. Mae hyn yn cynnwys olrhain gwastraff a chanlyniadau amgylcheddol drwy Becyn Cymorth Buddion Cymunedol Llywodraeth Cymru a defnyddio data i nodi cyfleoedd i wella ymhellach.

Gan adeiladu ar linell sylfaen 2023/24, rydym wedi gosod targedau uchelgeisiol i ddileu gwastraff sy'n cael ei anfon i safleoedd tirlenwi erbyn 2030, cynyddu cyfraddau ailgylchu a lleihau faint o wastraff sy'n cael ei gynhyrchu'n gyffredinol ledled ein hystâd gorfforaethol. Mae Cynllun Rheoli Gwastraff Corfforaethol yn cael ei ddatblygu i gefnogi'r gwaith o gyflawni, gwreiddio atebolrwydd ledled y sefydliad a sicrhau cydymffurfiad â rheoliadau amgylcheddol sy'n esblygu.

### Dros y flwyddyn ddiwethaf, rydym wedi cyflawni'r canlynol:



**98%**
**Gwastraff adeiladu wedi'i ddargyfeirio o safleoedd tirlenwi yn Nhan y Gaer**



**99%**
**Gwastraff swyddfa wedi'i ailgylchu**

### Wrth edrych i'r dyfodol, rydym eisiau cyflawni'r canlynol:



**100%**
**Targed dargyfeirio safleoedd tirlenwi erbyn 2030**



**99%**
**Gostyngiad mewn gwastraff corfforaethol erbyn 2030**

## Gwella effeithlonrwydd dŵr

Rydym hefyd yn gweithio i wella effeithlonrwydd dŵr ar draws ein cartrefi a'n hadeiladau, gan helpu i leihau'r defnydd o adnoddau, cefnogi fforddiadwyedd i breswylwyr a pharatoi ar gyfer heriau straen dŵr yn y dyfodol.

Rydym yn cynyddu ein dealltwriaeth o'n defnydd o ddŵr er mwyn canfod cyfleoedd i wella a thargedu buddsoddiad lle gall gael yr effaith fwyaf. Mae hyn yn cynnwys datblygu dull rheoli dŵr, rhoi mesurau arbed dŵr ar waith mewn cartrefi presennol a sicrhau bod cartrefi newydd yn cael eu dylunio i safonau effeithlonrwydd dŵr uchel.

Drwy gyfuno gwell monitro, gweithgarwch ôl-osod wedi'i dargedu ac egwyddorion dylunio cynaliadwy, ein nod yw lleihau faint o ddŵr sy'n cael ei ddefnyddio dros y tymor hir ar yr un pryd â chefnogi preswylwyr i reoli costau aelwydydd a defnyddio dŵr yn fwy effeithlon.

## Olrhain ein cynnydd

Byddwn yn parhau i olrhain ein perfformiad yn erbyn rheoliadau adeiladu a Safonau Ansawdd Tai Cymru ar gyfer effeithlonrwydd dŵr mewn cartrefi newydd, yn ogystal â defnyddio data i lywio targedau a monitro ein cynnydd dros amser.

### Ein targedau allweddol yw:



**110Litr**

**Targed o ran faint o ddŵr sy'n cael ei ddefnyddio bob dydd fesul person erbyn 2034**



**100%**

**O gartrefi i'w hasesu ar gyfer cyfleoedd effeithlonrwydd dŵr erbyn 2027**



**50%**

**O gartrefi i gael gwelliannau effeithlonrwydd dŵr erbyn 2030**



**2028**

**Dechrau gweithredu gwelliannau effeithlonrwydd dŵr corfforaethol yn dilyn asesiadau sylfaenol**





Ymwelodd Huw Irranca-Davies AS â datblygiad ym Mhenrhyndeudraeth i weld sut roedd defnyddio pren o Gymru o fudd i ddatblygu tai fforddiadwy yn yr ardal; gan hyrwyddo'r defnydd o ddeunyddiau adeiladu lleol sy'n defnyddio ynni'n effeithlon, fel rhan o strategaeth ddiwydiannol pren 'Datblygu'r Diwydiant Pren yng Nghymru'.

## Caffael Cyfrifol a Chynaliadwy

Mae cynaliadwyedd yn ystyriaeth bwysig yn ein penderfyniadau caffael, ochr yn ochr ag ansawdd, cost a gwasanaeth. Rydym yn gweithio gyda chyflenwyr sy'n rhannu ein hymrwymiad i gyfrifoldeb amgylcheddol, arferion busnes moesegol a gwerth cymdeithasol, gan helpu i sicrhau canlyniadau cadarnhaol i drigolion, cymunedau a'r amgylchedd.

Drwy ein prosesau caffael, rydym yn annog cyflenwyr i leihau allyriadau carbon, lleihau gwastraff, cyrchu deunyddiau'n gyfrifol a chydymffurfio â safonau amgylcheddol a rheoleiddiol perthnasol. Mae gofynion cynaliadwyedd wedi'u gwreiddio yn ein trefniadau tendro a rheoli contractau, gyda pherfformiad cyflenwyr yn cael ei adolygu drwy gydol oes contractau i gefnogi gwelliant parhaus.

Rydym hefyd yn ceisio sicrhau'r manteision economaidd lleol gorau posibl drwy gefnogi cadwyni cyflenwi lleol lle bo hynny'n briodol. Ledled ein rhaglen ddatblygu, mae ein contractwyr wedi dangos lefelau uchel o gyrchu lleol yn gyson, gan helpu i greu cyfleoedd cyflogaeth, cryfhau busnesau lleol a lleihau allyriadau sy'n gysylltiedig â thrafnidiaeth.



**90%+**

**Contractwyr, cyflenwyr a deunyddiau lleol wedi'u defnyddio mewn llawer o ddatblygiadau adeiladu newydd**



**100%**

**Cartrefi newydd wedi cael eu darparu gan brif gontractwyr o Ogledd Cymru**



**Pob tendr**

**Cynnwys meini prawf gwerthuso cynaliadwyedd amgylcheddol**



**Cadwyni cyflenwi lleol**

**Cefnogi cyflogaeth, sgiliau a buddion cymunedol ledled Gogledd Cymru**

## ASTUDIAETH ACHOS



# Croesawu trigolion i'w cartrefi newydd yng Nghegidfa, Y Trallwng

Yn hydref 2025, croesawyd preswylwyr i'w cartrefi newydd yng Nghegidfa ger y Trallwng.

Roedd y datblygiad newydd o 28 o dai a fflatiau fframiau pren Cymreig ac ynni-effeithlon yn ganlyniad i gynllun gwerth £8.7 miliwn, a adeiladwyd gan Williams Homes ar ran ClwydAlyn, mewn partneriaeth â Chyngor Sir Powys a Llywodraeth Cymru.

Lle bo'n bosibl, cafodd y gwaith adeiladu ei wneud gan ddefnyddio deunyddiau lleol a gyda gweithlu a chyflenwyr lleol.

*"Mae'r datblygiad hwn yn enghraifft wych o sut rydyn ni'n mynd i'r afael â'r argyfwng tai ym Mhowys drwy ddarparu cartrefi ynni-effeithlon o ansawdd uchel sy'n fforddiadwy ac wedi'u hadeiladu gyda chynaliadwyedd wrth eu gwraidd. Bydd y cartrefi hyn nid yn unig yn helpu i leihau tlodi tanwydd ond hefyd yn cefnogi iechyd a lles ein trigolion."*

**Y Cyng. Matthew Dorrance**
Dirprwy Arweinydd Cyngor Sir Powys ac Aelod Cabinet dros Bowys Decach




*"Rydyn ni wrth ein bodd â'r holl beth ac oherwydd bod gan ein plant anghenion ychwanegol, bydd cael pedair ystafell wely o fudd mawr i ni. Mae ein bechgyn yn awtistig ac roeddent yn arfer rhannu ystafell wely, felly mae cael eu hystafelloedd eu hunain yn gwneud gwahaniaeth enfawr. Mae'r ardd yn wych ac mae popeth yn fy syfrdanu!" Mae popeth sydd ei angen arnon ni yn y tŷ."*

**Danielle a Stephen**
Preswylwyr



C 



# Cymdeithasol

Thema 4:

## Fforddiadwyedd a diogelwch

**Rydym yn gweithio gyda'n Pwyllgor Preswylwyr i ddeall barn preswylwyr am ein polisi rhent fforddiadwy, yn ogystal ag ystyried y data diweddaraf ar yr incwm isaf.**

Rydyn ni eisiau sicrhau bod ein rhenti'n aros yn fforddiadwy ac yn cynnig sicrwydd i breswylwyr mewn ffordd sy'n gyson ac yn deg ledled ein holl gartrefi. Mae ein rhent yn seiliedig ar fodel Rhent Byw Sefydliad Joseph Rowntree, sy'n cynnwys fforddiadwyedd mewn unrhyw benderfyniadau ynghylch gosod rhenti.

Rydym yn gweithio mewn saith ardal awdurdod lleol ar gyfer cartrefi sydd o dan y drefn rheoleiddio rhenti.

**Yn 2025/26 fe wnaethom gwblhau 210 o gartrefi newydd, ac o'r rhain:**

- Roedd 177 ar gyfer rhent fforddiadwy (lle mae'r rhenti yn is na lefelau'r farchnad ond yn uwch na rhent cymdeithasol)
- 33 ar gyfer rhent canolradd (wedi'i anelu at aelwydydd nad ydynt yn gallu fforddio tai ar y farchnad agored ond nad ydynt yn gallu cael gafael ar dai cymdeithasol)

**Mae ein rhent cyfartalog ar gyfer cartref tair ystafell wely 8% yn is na'r gyfradd Lwfans Tai Lleol tair ystafell wely uchaf ledled y saith ardal lle rydym yn gweithredu.**



| Math o gartref | Nifer | % y cartrefi |
|---|---|---|
| Anghenion cyffredinol (rhent cymdeithasol) | 4,462 | 65.61% |
| Rhent canolradd (yn uwch na rhent cymdeithasol ond yn is na rhent y farchnad agored) | 318 | 4.68% |
| Tai â Chymorth (hosteli a chynteddau) | 216 | 3.18% |
| Cartrefi ar gyfer pobl hŷn | 556 | 8.18% |
| Perchenogaeth tai cost isel | 693 | 10.19% |
| Cartrefi Gofal | 76 | 1.12% |
| Cartrefi grŵp | 321 | 4.72% |
| Arall | 158 | 2.32% |

## Cartrefi cynnes

Drwy ein blaenoriaeth i sicrhau bod ein holl breswylwyr yn gallu cael gafael ar gartrefi cynnes y gallant fforddio eu gwresogi, fe wnaethom barhau i gynnig cymorth drwy ein Cronfa Preswylwyr gwerth £50,000 i helpu preswylwyr sydd mewn trafferthion ariannol gyda'u biliau ynni.

Yn ystod y 12 mis diwethaf rydym wedi cefnogi **478** o breswylwyr, gan sicrhau **£1.6 miliwn** o enillion ariannol, sef tua **£3,400** y preswylydd ar gyfartaledd a gafodd gymorth.

Mae ein tîm Hawliau Lles a Swyddogion Ymyrraeth Gynnar yn darparu cymorth i breswylwyr os ydynt yn cael trafferth gyda'u harian neu wrth reoli eu tenantiaeth.



Thema 5:

# Diogelwch ac ansawdd adeiladau

**Sicrhau bod preswylwyr yn teimlo'n ddiogel yn eu cartrefi yw ein prif flaenoriaeth. Rydym yn cymryd hyn o ddifri, gan sicrhau ein bod yn bodloni ein holl ofynion rheoleiddio ac yn cynnal a chadw ein cartrefi'n dda.**

**99.85%** o gartrefi – wedi derbyn yr holl wiriadau diogelwch nwy gofynnol, gan adlewyrchu ein hymrwymiad i ddiogelwch preswylwyr a chydymffurfiaeth reoleiddiol.

**100%** o gartrefi – gydag asesiad risg tân cyfredol, gan sicrhau bod risgiau diogelwch tân yn cael eu nodi a'u rheoli'n effeithiol.

**99.82%** o gartrefi – wedi cwblhau'r archwiliadau diogelwch trydanol gofynnol, gan helpu i gynnal amgylcheddau byw diogel.

**100%** o gartrefi – gydag arolygon asbestos cyfredol neu ail-archwiliadau ar waith, gan alluogi rheoli risgiau posibl yn rhagweithiol.

**100%** cydymffurfiaeth – wedi'i gyflawni ar gyfer asesiadau risg legionella, gan gefnogi diogelwch ac ansawdd ein systemau dŵr.

**100%** o archwiliadau diogelwch gofynnol ar gyfer lifftiau – wedi eu cwblhau, gan helpu i sicrhau bod lifftiau cymunedol yn aros yn ddiogel ac yn ddibynadwy i breswylwyr.

**Yn ystod y flwyddyn ddiwethaf:**

Mae'r canlyniadau hyn yn rhoi sicrwydd cryf bod ein cartrefi'n cael eu rheoli'n ddiogel ac yn gyfrifol. Lle mae'r perfformiad ychydig yn is na 100%, mae prosesau cadarn ar waith i fynd i'r afael ag achosion sy'n weddill yn gyflym ac yn effeithiol. Yn gyffredinol, mae ein perfformiad yn adlewyrchu ein hymrwymiad i gynnal cartrefi diogel o ansawdd uchel, bodloni gofynion rheoleiddio, a sicrhau canlyniadau cadarnhaol i breswylwyr.

## Safonau Ansawdd Tai Cymru




Mae cyflwyno Safon Ansawdd Tai Cymru (SATC) wedi newid y ffordd y mae cydymffurfiaeth yn cael ei hasesu a'i hadrodd.

O dan fframwaith blaenorol Safon Ansawdd Tai Cymru, roedd 100% o'n cartrefi yn bodloni'r safon. Er bod yr adroddiad diweddaraf yn cofnodi cydymffurfiaeth o 0%, nid yw hyn yn adlewyrchu cyflwr gwirioneddol ein cartrefi.

Dim ond pan fydd yr holl dystiolaeth ategol wedi cael ei dilysu'n llawn a'i dangos y bydd y fethodoleg adrodd newydd yn cofnodi bod cartref yn cydymffurfio. O ganlyniad, nid yw llawer o gartrefi sy'n bodloni'r safon yn cael eu cyfrif fel rhai sy'n cydymffurfio â'r fframwaith adrodd newydd eto.

Rydym yn parhau i gryfhau ein data, cwblhau asesiadau eiddo a chyflawni gwaith buddsoddi yn unol â gofynion diweddaraf SATC. Wrth i'r broses hon fynd rhagddi, rydym yn disgwyl i'n sefyllfa cydymffurfio roi adlewyrchiad mwy cywir o ansawdd ein cartrefi.

## Lleithder, llwydni ac anwedd

Rydym yn mynd ati'n rhagweithiol i reoli peryglon argyfwng, gan gynnwys lleithder a llwydni, drwy bolisïau clir, mesurau perfformiad wedi'u diffinio a phrosesau rheoli risg effeithiol. Asesir pob adroddiad yn brydlon, gydag achosion brys yn cael eu blaenoriaethu ar gyfer archwiliad cyflym a chamau unioni i amddiffyn preswylwyr a'u cartrefi.



ClwydAlyn

**Llwydni a Thamprwydd**

Beth ydyw ac awgrymiadau ar gyfer atal ac adrodd

**Beth yw Tamprwydd?**

Tamprwydd yw lleithder yn eich cartref sy'n gallu achosi i lwydni dyfu.

Mathau cyffredin o damprwydd yw:

- **Anwedd** – yn cael ei achosi gan leithder yn yr aer sy'n glanio ar arwynebau oer.
- **Tamprwydd treiddiol** – yn cael ei achosi gan ollyngiadau drwy waliau, toeau, neu ffenestri.
- **Tamprwydd codi** – yn cael ei achosi gan leithder sy'n codi o'r ddaear.

**Ble mae Llwydni yn ymddangos?**

Ffwng yw llwydni sy'n tyfu mewn ardaloedd tamp, heb awyriad da.


Mae'n aml yn ymddangos fel smotiau du, gwyrdd, neu frown ar:

- Silffoedd ffenestri
- Waliau a nenfydau
- Tu ôl i ddodrefn
- Ystafelloedd ymolchi a cheginau

**Pam mae'n bwysig gweithredu'n gyflym i atal Tamprwydd neu Lwydni?**

- Gofalu am eich iechyd (lleihau'r perygl o asthma, alergeddau, a phroblemau anadlu).
- Atal difrod i'ch cartref a'ch eiddo.
- Gwneud eich cartref yn gynhesach ac yn fwy cysurus.

20 • Hydref/Gaeaf 2025



Eich Diogelwch

**Atal Tamprwydd a Llwydni a Rhoi gwybod amdano**

**Beth gallwch chi ei wneud i helpu i atal Tamprwydd a Llwydni?**

**Awyru** – agor ffenestri bob dydd, defnyddio gwyntyllau echdynnu, osgoi blocio fentiau.

**Lleihau anwedd** – cadw cloriau ar sosbenni, sychu dillad y tu allan os yn bosibl, osgoi sychu dillad ar rheiddiaduron.

**Gwresogi** – cadw eich cartref yn gynnes ac ar dymheredd cyson.

**Dodrefn** – gadael bwlch rhwng dodrefn a waliau allanol i hwyluso llif aer.

**Sychu anwedd** o ffenestri a waliau bob bore.

**Beth fydd ClwydAlyn yn ei wneud:**

- Ymchwilio yn gyflym i adroddiadau am damprwydd a llwydni.
- Gwneud gwaith trwsio angenrheidiol os yw'r tamprwydd yn cael ei achosi gan yr adeilad.
- Rhoi cyngor ac atebion i breswylwyr.

**Sut i roi gwybod i ni am Damprwydd a Llwydni**

Os byddwch yn sylwi ar damprwydd neu llwydni yn eich cartref:

**Ffoniwch:** 0800 183 5757

**E-bostich:** enquiries@clwydalyn.co.uk

**Rhowch wybod ar-lein:** www.myclwydalyn.co.uk

Hydref/Gaeaf 2025 • 21

Ochr yn ochr ag ymateb yn gyflym pan fydd problemau'n codi, rydym yn canolbwyntio ar atal drwy waith cynnal a chadw wedi'i gynllunio, asesiadau eiddo rheolaidd, gwelliannau awyru ac ymgysylltu â phreswylwyr. Drwy ddefnyddio data i nodi risgiau'n gynnar, buddsoddi yn ein cartrefi a datblygu arbenigedd staff yn barhaus, ein nod yw atal problemau cyn iddynt ddigwydd a darparu amgylcheddau byw diogel ac iach i'n preswylwyr.

ASTUDIAETH ACHOS



## Cynllun sied beiciau yn sicrhau man storio diogel yn yr awyr agored i breswylwyr

Buom yn gweithio mewn partneriaeth â Trafnidiaeth Cymru ar gynllun i osod siediau beiciau ar draws nifer o'n datblygiadau preswyl, gan helpu preswylwyr i gael mynediad at fannau storio diogel sy'n gwrthsefyll y tywydd ar gyfer beiciau ac eitemau hanfodol eraill.

Ariannodd Trafnidiaeth Cymru y cynllun hwn fel rhan o Gam 1 Rhaglen Siediau Beiciau. Mae'r prosiect yn cefnogi ein hymrwymiad parhaus i gyflawni amcanion Safon Ansawdd Tai Cymru 2023, sy'n rhoi pwyslais ar storio allanol a byw'n gynaliadwy.

**Dywedodd Ynyr Parri, ein Rheolwr Eiddo (SATC):**

*"Fel rhan o'r Safon Ansawdd Tai Cymru newydd, rydym wedi ymrwymo i ddarparu storfa allanol gadarn y gellir ei chloi i'n preswylwyr. Mae'r atebion hyn yn helpu preswylwyr i storio eitemau fel beiciau, offer gardd, pramiau a chymhorthion symud yn ddiogel, gan annog teithio cynaliadwy ar yr un pryd.*

*"Rydyn ni'n bwriadu parhau i weithio gyda Trafnidiaeth Cymru i osod rhagor o siediau, gan alluogi hyd yn oed mwy o drigolion i elwa o storio beiciau."*

Rydym wedi gosod pedwar sied feiciau i breswylwyr eu defnyddio ym Mhrestatyn, Bagillt, yr Wyddgrug a Wrecsam.



Thema 6:

# Bodlonrwydd preswylwyr ac ansawdd gwasanaeth

**Ein prif nod yw bod yn landlord gwych.**

Rydyn ni'n credu mewn gwrando ar brofiadau ein preswylwyr a defnyddio eu hadborth i lywio a gwella sut rydyn ni'n gwneud pethau.

Mae canlyniadau ein harolwg preswylwyr 2025/26 yn dangos bod bodlonrwydd â gwasanaethau ClwydAlyn yn dal yn gryf, gydag 84% o breswylwyr yn fodlon â'r gwasanaethau rydyn ni'n eu darparu.

Rydym yn parhau i berfformio'n dda o'n cymharu â chymdeithasau tai eraill yng Nghymru, gan gyflawni perfformiad yn y chwartel uchaf mewn 9 o'r 12 mesur a sgorio'n uwch na chanolrif Cymru ar draws pob maes a fesurwyd.

## Prif uchafbwyntiau perfformiad



**84%**

**Bodlonrwydd cyffredinol preswylwyr â ClwydAlyn**



**90%** (i fyny o 88% y llynedd)

**Preswylwyr yn teimlo bod eu cartref yn ddiogel**



**86%** (i fyny o 81% y llynedd)

**Preswylwyr yn credu bod eu rhent yn cynnig gwerth da am arian**



**82%** (i fyny o 81% y llynedd)

**Bodlonrwydd â'r gymdogaeth fel lle i fyw**



**78%** (i fyny o 76% y llynedd)

**Bodlonrwydd â'n gwasanaeth atgyweirio**





Mae'r canlyniadau hyn yn adlewyrchu gwelliannau parhaus yn y meysydd sydd bwysicaf i breswylwyr, gan gynnwys diogelwch yn y cartref, atgyweirio, ansawdd cymdogaeth a gwerth am arian.

I ategu ein harolygon canfyddiad blynyddol, rydym yn casglu adborth drwy gydol y flwyddyn drwy arolygon boddhad trafodaethol a gwblheir yn syth ar ôl i breswylwyr gael gwasanaeth.

Mae hyn yn ein galluogi i fonitro perfformiad mewn amser real, deall profiadau preswylwyr a nodi cyfleoedd i wella. Mae canlyniadau'n cael eu hadolygu'n rheolaidd gan ein Tîm Gweithredol a'n Pwyllgor Preswylwyr, gan helpu i sicrhau bod adborth preswylwyr yn parhau i siapio'r gwaith o ddarparu gwasanaethau a sbarduno gwelliant parhaus.

## Arolygon bodlonrwydd

Mae arolygon boddhad trafodaethol, sy'n cael eu cwblhau yn syth ar ôl i wasanaeth gael ei ddarparu, yn rhoi cipolwg gwerthfawr ar brofiadau preswylwyr o ddydd i ddydd ac yn ein helpu i fonitro ansawdd gwasanaethau drwy gydol y flwyddyn.

Mae canlyniadau ar gyfer 2025/26 yn dangos perfformiad cryf yn gyson ar draws ein gwasanaethau allweddol.

Mae'r canlyniadau hyn yn rhoi sicrwydd parhaus bod preswylwyr yn cael gwasanaethau o ansawdd uchel ar draws amrywiaeth o fannau cyswllt cwsmeriaid ac yn ein helpu i nodi cyfleoedd ar gyfer gwelliant parhaus.



## Gwrando ar adborth gan breswylwyr ac ymateb iddo

Rydym yn gweithio'n agos gyda phreswylwyr i ddeall lefelau bodlonrwydd a nodi lle gellir gwneud gwelliannau. Yn ystod 2025/26, fe wnaethom gynnal cyfres o weithdai preswylwyr i archwilio canfyddiadau'r arolwg yn fanylach a deall profiadau gwahanol grwpiau preswylwyr yn well.



## Uchafbwyntiau bodlonrwydd â gwasanaeth

**98.4%** Bodlonrwydd â gwasanaethau atgyweirio

**90-100%** Bodlonrwydd â gwaith gwella arfaethedig

**94%** Bodlonrwydd â gwasanaethau Preswylfeydd Pobl Hŷn (ORP)

**88-100%** Bodlonrwydd â gwasanaethau gosod ar gyfer anghenion cyffredinol

**75-94%** Bodlonrwydd â rheoli achosion ymddygiad gwrthgymdeithasol (ASB)

**87.5%** Bodlonrwydd â'r broses o ddelio â chwynion

Mae'r prif feysydd ffocws yn cynnwys:

- **Cynyddu dylanwad a chyfranogiad preswylwyr** drwy gryfhau dolenni adborth, dangos sut mae mewnbwn preswylwyr yn arwain at newid, ac ehangu cyfleoedd ymgysylltu i gyrraedd ystod fwy amrywiol o breswylwyr.
- **Cynnal gwasanaethau craidd sy'n perfformio'n dda,** gan gynnwys atgyweiriadau, diogelwch adeiladau a rheoli cymdogaethau.
- **Gwella tryloywder a chyfathrebu** drwy helpu preswylwyr i ddeall yn well sut mae rhenti a thaliadau gwasanaeth yn cael eu defnyddio a sut mae eu hadborth yn siapio'r ffordd mae gwasanaethau'n cael eu darparu.
- **Targedu cymorth ac ymgysylltiad** lle mae bodlonrwydd yn is, gan ddefnyddio gwybodaeth o arolygon i deilwra cyfleoedd cyfathrebu a chyfranogi ar gyfer trigolion iau a'r rheini sy'n byw mewn tai fforddiadwy.

# Bodlonrwydd â gwasanaethau gofal

## Llys y Waun

Mae adborth gan breswylwyr a theuluoedd ar gyfer ein gwasanaethau gofal yn cael ei gasglu'n annibynnol drwy Carehome.co.uk, un o brif lwyfannau adolygu cartrefi gofal y DU. Mae Llys y Waun yn Wrecsam yn parhau i berfformio'n eithriadol o dda, gan gyflawni sgôr gyffredinol o 9.9 allan o 10, sydd ymhlith y tri darparwr gofal gorau yn Wrecsam ac ymhlith y deg cartref gofal gorau yng Nghymru.

Mae'r adborth hwn a ddilyswyd yn annibynnol yn rhoi sicrwydd bod preswylwyr a'u teuluoedd yn parhau i gael gofal a chymorth o ansawdd uchel.







## Gwasanaeth iechyd meddwl i oedolion Llys Marchan

Cesglir adborth gan drigolion Llys Marchan yn Rhuthun drwy arolygon bodlonrwydd pwrpasol. Canfu'r arolwg diweddaraf fod preswylwyr yn gwerthfawrogi'r amgylchedd cefnogol sy'n cael ei greu gan staff, gan dynnu sylw at y ffaith bod aelodau'r tîm yn gwrando'n ofalus, yn ymateb yn gadarnhaol i bryderon ac yn dangos dealltwriaeth gref o anghenion unigol.





Disgrifiodd y preswylwyr y gwasanaeth fel un sy'n darparu amgylchedd diogel, cefnogol a chadarnhaol i fyw ynddo. Mae unrhyw feysydd i'w gwella a nodir drwy adborth yn cael eu hadolygu ac yn cael sylw fel rhan o'n hymrwymiad parhaus i wella'n barhaus.

O ystyried natur arbenigol y gwasanaeth ac anghenion cymorth amrywiol y preswylwyr, gall lefelau cyfranogiad ac ymatebion amrywio dros amser. Fodd bynnag, mae adborth yn parhau i roi cipolwg pwysig ar brofiad preswylwyr ac yn llywio datblygiad gwasanaethau.

## Llais a dylanwad preswylwyr

Mae rhoi preswylwyr wrth galon y broses o wneud penderfyniadau yn ganolog i'n dull gweithredu. Mae ein Strategaeth Cynnwys Preswylwyr yn creu amrywiaeth o gyfleoedd hyblyg a chynhwysol i breswylwyr siapio gwasanaethau, dylanwadu ar benderfyniadau a'n dal ni'n atebol. Drwy wrando ar breswylwyr a gweithredu ar eu hadborth, rydym yn parhau i wella gwasanaethau a sicrhau eu bod yn adlewyrchu anghenion y bobl a'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu.

## Cynrychiolaeth preswylwyr ar bob lefel

Mae trigolion yn cael eu cynrychioli ar draws ein strwythur llywodraethu, gan sicrhau bod eu lleisiau'n helpu i lywio penderfyniadau gweithredol a strategol.

## Preswylwyr sy'n Aelodau'r Bwrdd

Mae dau aelod o Fwrdd ClwydAlyn yn breswylwyr (isod), gan sicrhau bod safbwyntiau preswylwyr yn cael eu hadlewyrchu mewn trafodaethau strategol a phenderfyniadau. Mae eu cyfraniad yn helpu i gadw buddiannau trigolion yn flaenllaw yn nhrafodaethau'r Bwrdd a chynlluniau tymor hir.




## Uchafbwyntiau ymgysylltu â phreswylwyr



**179** O aelodau gweithredol o'n rhwydwaith ymgysylltu â phreswylwyr #InfluenceUs

**22** O aelodau newydd wedi ymuno yn ystod 2025/26

**2** O Breswylwyr sy'n Aelodau'r Bwrdd yn helpu i siapio'r broses o wneud penderfyniadau strategol

**7** O aelodau'r Pwyllgor Preswylwyr yn craffu ac yn rhoi sicrwydd






## Pwyllgor Preswylwyr

Mae'r Pwyllgor Preswylwyr yn chwarae rhan bwysig yn y gwaith o ddarparu sicrwydd a her annibynnol. Mae'r pwyllgor yn dod â phreswylwyr o bob rhan o'n gwasanaethau at ei gilydd i adolygu perfformiad, craffu ar adborth a chwynion preswylwyr, a monitro pa mor effeithiol rydym yn ymgysylltu â phreswylwyr.

Gan gyfarfod bum gwaith y flwyddyn, mae'r pwyllgor yn:

- Adolygu perfformiad y gwasanaeth a bodlonrwydd preswylwyr
- Monitro'r gwaith o gyflawni'r Strategaeth Cynnwys Preswylwyr
- Craffu ar gwynion a'r gwersi a ddysgwyd
- Rhoi argymhellion i'r Bwrdd a'r Tîm Gweithredol
- Adolygu ystyriaethau cydraddoldeb, amrywiaeth, cynhwysiant a'r Gymraeg
- Cefnogi'r gwaith o wella gwasanaethau drwy herio a chraffu dan arweiniad preswylwyr

Mae hyn yn helpu i sicrhau bod canfyddiadau preswylwyr yn dylanwadu'n uniongyrchol ar y broses o wneud penderfyniadau a gwella'n barhaus.

## Panel Cwynion

Mae preswylwyr hefyd yn helpu i oruchwylio ein dull o ymdrin â chwynion drwy Banel Cwynion pwrpasol. Gan weithio ochr yn ochr ag uwch gydweithwyr, mae aelodau'r panel yn adolygu tueddiadau cwynion, yn edrych ar feysydd sy'n peri pryder ac yn cynnal adolygiadau manwl o achosion dethol.
Mae'r broses hon yn rhoi sicrwydd bod cwynion yn cael eu trin yn deg, bod gwersi'n cael eu dysgu a bod gwelliannau i wasanaethau'n cael eu rhoi ar waith lle bo angen.

## #InfluenceUs: Gwelliannau sy'n cael eu harwain gan breswylwyr

Mae ein rhaglen #InfluenceUs yn rhoi cyfleoedd i breswylwyr rannu eu barn ar bolisïau, gwasanaethau a chynlluniau ar gyfer y dyfodol ar draws y sefydliad.
Gyda chefnogaeth Arbenigwr Ymgysylltu â Phreswylwyr a Chyfathrebu penodol, mae #InfluenceUs yn galluogi preswylwyr i gyfrannu drwy arolygon, grwpiau ffocws, ymgynghoriadau a gweithgareddau ymgysylltu. Mae'r adborth a gesglir yn helpu i lunio dyluniad gwasanaethau, nodi meysydd i'w gwella a sicrhau bod profiadau preswylwyr yn parhau i fod wrth galon ein penderfyniadau.
Mae twf parhaus y rhaglen yn dangos parodrwydd preswylwyr i weithio gyda ni i wella gwasanaethau a chryfhau cymunedau.

Dylanwada Ni arnom ClwydAlyn









## Gwrando ar breswylwyr a gweithredu ar adborth

Cesglir adborth preswylwyr drwy amrywiaeth o sianeli, gan gynnwys gweithgareddau cynnwys, arolygon bodlonrwydd, grwpiau ffocws ac ymarferion ymgysylltu sy'n benodol i wasanaeth.

**Mae deall profiadau preswylwyr yn ein helpu i wneud y canlynol:**

- Gwella ansawdd gwasanaethau
- Cynllunio gwasanaethau o amgylch anghenion preswylwyr
- Meithrin ymddiriedaeth a thryloywder
- Cryfhau atebolrwydd
- Sicrhau canlyniadau gwell i drigolion a chymunedau

## Llais preswylwyr mewn gwasanaethau gofal a chymorth

Ledled ein gwasanaethau Gofal a Chymorth, mae cyfarfodydd preswylwyr rheolaidd yn rhoi cyfleoedd i bobl rannu eu barn, mynegi pryderon ac awgrymu gwelliannau. Mae'r adborth a gesglir drwy'r sesiynau hyn yn helpu i lywio'r gwaith o ddarparu gwasanaethau o ddydd i ddydd ac yn cefnogi gwelliant parhaus ledled ein lleoliadau tai a gofal arbenigol.

Drwy wreiddio llais preswylwyr yn ein gweithgareddau llywodraethu, darparu gwasanaethau a gwella, rydym yn parhau i gryfhau atebolrwydd, gwella profiad cwsmeriaid a sicrhau bod preswylwyr yn parhau i fod wrth galon popeth a wnawn.

ASTUDIAETH ACHOS



# Un o drigolion ifanc Llandudno yn recordio cân i ddathlu cefnogaeth digartrefedd

**Cyrhaeddodd Callum Roberts ganolfan byw cymorth brys The Bell, ar ôl canfod ei hun yn ddigartref yn 16 oed.**

Cafodd y lleoliad effaith ddofn ar fywyd Callum, a sianelodd y diolchgarwch a'r gobaith roedd yn ei deimlo i greu cân a oedd yn mynegi'r emosiynau a brofodd ar y pryd. Ysgrifennodd a recordiodd 'Blessings in The Bell' yn gyfan gwbl ar ei ben ei hun dros gyfnod o wythnos.

Aeth Callum i Gynhadledd Flynyddol Tai Cymunedol Cymru yng Nghaerdydd yn 2025, lle cafodd y gân ei chwarae i'r rhai a oedd yn bresennol, a oedd yn gallu clywed y neges y tu ôl i'r gân, a gweld yr effaith wirioneddol y gall llety brys ei chael mewn cyfnod o angen.

**Dywedodd Callum:** *"Roedd y staff a'r preswylwyr eraill yn gofalu amdanaf. Roeddwn i'n teimlo'n ddiogel. Roeddwn i eisiau ysgrifennu rhywbeth a oedd yn egluro beth roedd hynny'n ei olygu i mi."*

Mae'r geiriau nid yn unig yn adlewyrchu'r trafferthion a wynebodd Callum, ond hefyd y gobaith a gafodd yn ystod yr wythnosau a'r misoedd ar ôl bod yn ddigartref.

*"Rydw i'n rhoi fy emosiynau ynddi oherwydd rydw i eisiau i bobl wybod, ni waeth beth rydych chi'n mynd drwyddo, bod gobaith bob amser.*


*"Roeddwn i'n falch iawn o glywed fy nghân yn cael ei chwarae yn y gynhadledd a gobeithio y byddaf i'n gallu parhau i wneud cerddoriaeth."*

**Dywedodd Susan Stephenson, rheolwr The Bell:** *"Roedd hi'n wych clywed 'Blessings in The Bell' mor uchel. Roedd Callum yn llawn balchder, a ninnau hefyd!"*

*"Mae'n wych gweld Callum yn defnyddio ei dalent i ysbrydoli eraill."*

**Dywedodd Edward Hughes, Cyfarwyddwr Gweithredol Gofal a Chymorth ClwydAlyn:** *Mae Callum yn brawf bod cartref diogel, cynnes a'r gefnogaeth briodol yn gallu helpu i drawsnewid bywyd person ifanc. Rydyn ni'n edrych ymlaen at weld beth sydd gan y dyfodol ei gynnig i Callum."*

# Cwynion, adborth a dysgu




Rydym yn ystyried pob cwyn, pryder a darn o adborth yn gyfle i ddysgu a gwella. Ein nod yw darparu gwasanaethau sy'n adlewyrchu ein gwerthoedd, sef Ymddiriedaeth, Gobaith a Charedigrwydd, gan sicrhau bod preswylwyr yn teimlo bod rhywun yn gwrando arnynt, yn eu parchu ac yn eu cefnogi pan na fydd pethau'n mynd yn ôl y disgwyl.

Gellir datrys llawer o bryderon yn gyflym heb fod angen cwyn ffurfiol.

Yn ystod 2025/26, roedd ein timau'n canolbwyntio ar ddatrys yn gynnar lle bynnag y bo modd, gan helpu preswylwyr i gael ymateb amserol a lleihau'r angen i uwchgyfeirio.

Mae'r ffaith na chadarnhawyd unrhyw ymchwiliadau gan yr Ombwdsmon yn tynnu sylw at gadernid ein prosesau delio â chwynion a'n penderfyniadau. Mae gwelliannau i'r ffordd rydym yn casglu ac yn cyflwyno tystiolaeth achos hefyd wedi lleihau'r amser a gymerir i benderfyniadau'r Ombwdsmon gael eu gwneud, gan helpu preswylwyr i gael canlyniadau'n gyflymach.

## Craffu ac atebolrwydd dan arweiniad preswylwyr

Mae preswylwyr yn chwarae rhan weithredol yn y gwaith o adolygu ein perfformiad o ran cwynion drwy ein Panel Cwynion, sy'n cynnwys aelodau o'r Pwyllgor Preswylwyr a gwirfoddolwyr o'n rhwydwaith #InfluenceUs.

**Mae'r panel yn cwrdd ag uwch gydweithwyr bob chwarter er mwyn:**

- Adolygu tueddiadau cwynion a materion sy'n dod i'r amlwg
- Archwilio achosion unigol yn fanwl
- Asesu ansawdd yr ymatebion i gwynion
- Monitro'r gwersi a ddysgwyd a gwelliannau i'r gwasanaeth
- Herio a dylanwadu ar gamau gweithredu yn y dyfodol
- Sicrhau canlyniadau gwell i drigolion a chymunedau

Mae canfyddiadau ac argymhellion yn cael eu rhannu â'r Tîm Gweithredol a'r Uwch Arweinwyr, gan sicrhau bod cwynion ac adborth gan breswylwyr yn cyfrannu'n uniongyrchol at ddysgu sefydliadol a gwneud penderfyniadau.

## Uchafbwyntiau perfformiad cwynion

**479** — Cysylltiadau preswylwyr a dderbyniwyd gan ein Tîm Cymorth a Datrysiadau i Breswylwyr

**63%** — Wedi'u datrys ar unwaith drwy ymyrraeth gynnar neu ddatrysiad cyflym

**78%** — O'r cwynion ffurfiol wedi'u datrys ar Gam 1

**88%** — O'r cwynion Cam 1 wedi derbyn ymateb o fewn amserlenni targed

**90%** — O'r cwynion Cam 2 wedi cael ymateb o fewn yr amserlenni targed

**11** — O achosion wedi'u hystyried gan yr Ombwdsmon

**Sero** — Cwynion i'r Ombwdsmon wedi'u cadarnhau yn erbyn ClwydAlyn

**O'r 479 o gysylltiadau a gafwyd, cafodd 302 eu datrys yn gyflym ac yn anffurfiol, yn aml drwy ateb ymarferol, esboniad neu iawndal y cytunwyd arno lle bo hynny'n briodol.**

**Roedd y 177 o bryderon a oedd yn weddill wedi mynd i'r broses gwyno ffurfiol, gyda'r rhan fwyaf yn cael eu datrys ar y cam cynharaf posibl.**



### Canmoliaeth

Mae eich adborth yn cael ei werthfawrogi'n fawr. Pan fyddwch yn derbyn gwasanaeth rhagorol gan un o'n staff sydd wedi ei hyfforddi, byddem wrth ein bodd yn clywed am hynny.

Mae'r ganmoliaeth bob amser yn cael ei hanfon ymlaen at yr unigolyn a'i Reolwr ac mae'n ein helpu i wybod ein bod yn gwneud pethau'n iawn!

Cyflwyno cwyn →



### Pryderon

Os byddwch chi yn teimlo'n anfodlon am unrhyw ran o'r gwasanaeth yr ydych yn ei dderbyn gan ClwydAlyn, rydym yma i wrando arnoch chi.

Os nad ydych yn siŵr a yw'n gŵyn neu y byddech yn hoffi siarad hefo ni, gallwn eich arwain trwy'r broses, i'w gwneud mor hawdd â phosibl.

Codi pryder →



### Cwynion

Gall cwyn fod pan na fyddwch yn hapus gyda safon y gwasanaeth, neu pan fyddwn wedi peidio â gwneud rhywbeth yr ydym wedi cytuno i'w wneud.

Gall hefyd fod pan fyddwch wedi profi triniaeth wael gan ClwydAlyn neu pan na fydd gwaith trwsio wedi cael ei wneud cyn pen amser penodol.

Cyflwyno cwyn →

## Dysgu a gwella'n barhaus

Rydym wedi parhau i gryfhau ein dull gweithredu ar gyfer cwynion drwy alinio'n agosach ag arferion gorau a chanolbwyntio'n fwy cadarn ar ddysgu o adborth.

**Yn ystod 2025/26, fe wnaethom y canlynol:**

- Diweddaru ein polisi cwynion a'n canllawiau i breswylwyr
- Darparu hyfforddiant ychwanegol i reolwyr ac uwch arweinwyr
- Cyflwyno gwybodaeth fwy hygyrch i helpu preswylwyr i ddeall y broses gwyno
- Datblygu deunyddiau ymgysylltu newydd, gan gynnwys canllaw cwynion syml ac adnoddau gwybodaeth i'r tîm
- Prosesau dysgu mewnol gwell i sicrhau bod adborth yn sbarduno gwelliannau i wasanaethau

Mae cynllun gweithredu yn cael ei adolygu'n rheolaidd i fonitro cynnydd a sicrhau bod yr hyn a ddysgir yn cael ei droi'n newid ystyrlon i breswylwyr.

## Gwella hygyrchedd

Rydym am i breswylwyr allu mynegi pryderon mewn ffordd sy'n gweithio iddyn nhw. I gefnogi hyn, rydym wedi gwella hygyrchedd drwy:

- Tudalen we ar gyfer cwynion sydd wedi'i hailddylunio ac sy'n haws ei defnyddio
- Nifer o sianeli cyfathrebu ar gyfer mynegi pryderon
- Gwybodaeth gliriach am y broses gwyno
- Adborth parhaus gan breswylwyr ar ôl datrys cwynion

Er mwyn atgyfnerthu ein dull gweithredu sy'n canolbwyntio ar gwsmeriaid, mae'r gwasanaeth wedi cael ei ailenwi'n Dîm Cymorth a Datrysiadau i Breswylwyr, gan adlewyrchu ein hymrwymiad i ddatrys materion yn gadarnhaol, meithrin ymddiriedaeth a chryfhau'r berthynas â phreswylwyr.

Drwy gyfuno dulliau effeithiol o ddelio â chwynion â chraffu sy'n cael ei arwain gan breswylwyr a diwylliant dysgu cryf, rydym yn parhau i wella gwasanaethau a sicrhau bod adborth preswylwyr yn parhau i fod yn sbardun allweddol ar gyfer gwelliant sefydliadol.

Thema 7:

# Cymorth i breswylwyr

## Cefnogi trigolion a chryfhau cymunedau

**Rydym wedi parhau i ddarparu ein dull gweithredu cymunedol ar gyfer gwasanaethau tai.**

Mae ein timau Tai yn gweithio mewn ardaloedd cymunedol bach gydag oddeutu 250 o gartrefi i bob swyddog. Mae gweithio fel hyn yn galluogi swyddogion i feithrin perthynas â'n preswylwyr er mwyn deall eu hamgylchiadau a'u hanghenion a darparu cymorth wedi'i dargedu lle mae ei angen.

Rydym wedi ymrwymo i helpu preswylwyr i ffynnu, nid yn unig drwy ddarparu cartrefi, ond drwy gynnig cymorth ymarferol sy'n helpu pobl i oresgyn heriau, gwella llesiant a meithrin gwytnwch ariannol.

## Cronfa Breswylwyr

Mae ein Cronfa Breswylwyr yno i helpu preswylwyr sy'n wynebu caledi ariannol neu argyfwng.

**153** Preswylwyr wedi'u cefnogi

**£40,600** buddsoddwyd

Roedd y cymorth a ddarparwyd yn ystod 2025/26 yn cynnwys:

- Darpariaeth bwyd brys
- Cymorth gyda thlodi tanwydd a chostau ynni
- Cymorth iechyd a lles
- Cymorth cynhwysiant digidol
- Cymorth cysylltiedig ag eiddo
- Offer hanfodol i'r cartref

Mae'r gronfa'n darparu cymorth amserol pan fydd ei angen fwyaf ar breswylwyr, gan helpu i leihau pwysau ariannol a chefnogi cynnal tenantiaeth.

## Cefnogi preswylwyr i gael hyfforddiant a gwaith

Ar draws ein cynlluniau byw â chymorth, fe wnaethom barhau i ddarparu amrywiaeth eang o gymorth i alluogi preswylwyr i fyw'n annibynnol. Drwy'r cymorth hwn:

- Symudodd 116 o breswylwyr i gartrefi parhaol
- Cofrestrodd 129 o breswylwyr ar gyfer coleg neu brifysgol
- Dechreuodd 96 o breswylwyr gyrsiau hyfforddi neu brentisiaethau
- Daeth 137 o breswylwyr o hyd i waith amser llawn

## Cartrefi Diogel a Chynnes

Mae darparu cartrefi diogel a chynnes yn flaenoriaeth allweddol i ClwydAlyn, gyda'n rhaglen ddatblygu yn rhan sylweddol o'r ffocws hwn. Dyma rai sylwadau a rannodd ein preswylwyr wrth iddynt symud i'w cartrefi newydd:

**Dywedodd un preswylydd a symudodd i'w cartref newydd ym Modedern yn ddiweddar:** *"Rwy'n teimlo'n lwcus iawn.*
*"Lle'r oedden ni'n byw o'r blaen roeddwn i'n teimlo'n ynysig iawn, ond mae byw yma'n newid mawr ac yn ddechrau newydd! Bydd y biliau'n llawer rhatach hefyd, ac rydw i'n edrych ymlaen at fyw yma.'*

**Dywedodd dau breswylydd a symudodd i'w cartrefi newydd yn Rhoslan:** *"Fy argraff gyntaf o'm cartref newydd yw fy mod wrth fy modd; rwy'n teimlo'n lwcus iawn i fod yn symud i mewn yma. Cyn hyn, roedd fy mab bach a minnau mewn llety dros dro mewn fflat fach, a gyda'n ci bach hefyd, roedd yn anodd. Mae hyn yn mynd i fod yn llawer gwell i ni, ac rydyn ni'n teimlo'n llawer gwell gyda chymaint mwy o le nawr."*

*"Ar ôl rhentu'n breifat am 12 mlynedd, mae'n wych bod gyda ClwydAlyn. Roeddem yn cael ein bygwth â chael ein troi allan o'n heiddo diwethaf a gallem fod wedi cael ein gwneud yn ddigartref neu orfod symud i lety a rennir oherwydd bod rhenti preifat i deulu o'n maint ni yn uchel."*

*Roedd yn straen mawr ac yn effeithio ar fy iechyd meddwl, ond ar ôl ymweld â'n cartref newydd yr wythnos diwethaf, fe gawson ni'r allweddi heddiw! Rydw i mor hapus i gael sicrwydd hirdymor ar gyfer fy nhair merch; rydyn ni mor ddiolchgar am y cyfle hwn wrth symud ymlaen."*

## Cynhwysiant ariannol a chymorth lles

Mae ein Tîm Hawliau Lles a'n Swyddogion Ymyrraeth Gynnar yn gweithio'n agos gyda phreswylwyr sy'n wynebu anawsterau ariannol neu sydd angen cymorth i gynnal eu tenantiaeth.

**£1.6 miliwn+**
Manteision ariannol a sicrhawyd i breswylwyr

**369 o breswylwyr**
Wedi cael cefnogaeth gan ein Tîm Hawliau Lles

**367 o breswylwyr**
Wedi cael cefnogaeth gan ein Gwasanaeth Ymyrraeth Gynnar

Drwy gyngor ac eiriolaeth bersonol, cefnogwyd preswylwyr i gael gafael ar incwm ychwanegol a chymorth ariannol, gan gynnwys:

- Ceisiadau ac apeliadau mewn perthynas â Thaliadau Annibyniaeth Personol (PIP)
- Hawliadau Credyd Pensiwn
- Lwfans Cyflogaeth a Chymorth (ESA) ac asesiadau gallu i weithio
- Cyngor ar gyllidebu a rheoli arian
- Disgowntiau cyfleustodau a lleihau biliau
- Taliadau Tai yn ôl Disgresiwn
- Cyngor a chefnogaeth arbenigol ar ddyledion

Mae'r gwaith hwn yn helpu preswylwyr i wneud y gorau o'u hincwm, lleihau caledi ariannol a gwella lles ariannol hirdymor.

## Cymorth lles

Mae cefnogi llesiant preswylwyr yn hanfodol er mwyn helpu pobl i gynnal eu cartrefi a byw'n annibynnol.

Yn ystod 2025/26, fe wnaethom ddarparu cymorth sy'n gysylltiedig â llesiant i 158 o breswylwyr sy'n byw mewn cartrefi anghenion



cyffredinol a chartrefi fforddiadwy.

Mae ein timau tai yn chwarae rhan gynyddol allweddol yn y gwaith o nodi anghenion llesiant ehangach a chysylltu preswylwyr â chymorth a gwasanaethau priodol.

**54 o breswylwyr**
Manteision ariannol a sicrhawyd i breswylwyr

**51 o breswylwyr**
Wedi cael cefnogaeth gyda materion yn ymwneud ag amodau eiddo

**41 o breswylwyr**
Wedi cael cefnogaeth gyda heriau tlodi bwyd

**16 o breswylwyr**
Wedi cael cefnogaeth gyda phryderon tlodi tanwydd

**2 o breswylwyr**
Wedi cael cefnogaeth gydag anghenion cyflogaeth ac addysg

**2 o breswylwyr**
Wedi cael cefnogaeth gydag anghenion cynhwysiant digidol

## Croesawu preswylwyr newydd

Yn ystod 2025/26, fe wnaethom groesawu 838 o breswylwyr newydd i gartrefi a gwasanaethau ClwydAlyn:

**486** Anghenion cyffredinol

**152** Gofal ychwanegol

**91** Byw â chymorth

**66** Cartrefi fforddiadwy

**43** Cartrefi grŵp






Mae darparu cartrefi diogel, fforddiadwy a chefnogol i amrywiaeth eang o breswylwyr yn dal wrth galon ein diben cymdeithasol.




## Cymorth dros y Nadolig

**57 o breswylwyr**

Wedi cael anrhegion Nadolig

**26 aelwyd**

Wedi cael talebau bwyd

**£680**

Wedi'i ddarparu drwy gymorth talebau bwyd

Roedd y cymorth yn canolbwyntio ar aelwydydd sy'n wynebu caledi ariannol, teuluoedd â phlant a phreswylwyr sydd mewn perygl o gael eu hynysu'n gymdeithasol, gan helpu i sicrhau eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu cefnogi yn ystod tymor yr ŵyl.

ASTUDIAETH ACHOS




## Creu cyfleoedd a chefnogi annibyniaeth

### Rhoi Llythrennedd Digidol dan y Chwyddwydr

Gwnaethom barhau i gryfhau cynhwysiant digidol ar draws ein cynlluniau Gofal Ychwanegol drwy roi cymorth penodol i breswylwyr i wella eu hyder a'u sgiliau wrth ddefnyddio technoleg.

Roedd preswylwyr wedi elwa o gymorth un-i-un a sesiynau grŵp, gan eu helpu i gael gafael ar wasanaethau ar-lein, cadw mewn cysylltiad ag eraill a meithrin hyder digidol.

Mae ein menter cynhwysiant digidol wedi'i chynllunio i helpu preswylwyr i ddefnyddio technoleg, gan sicrhau ein bod yn cynnig cymorth i breswylwyr sy'n awyddus i gynyddu eu llythrennedd digidol.

**Gill Edgar, Swyddog Cymorth Cymunedol, sy'n gyfrifol am hwyluso'r cynllun: Dywedodd Gill:** *"Y rhan fwyaf o'r amser, mae gan ein preswylwyr ddyfeisiau; ffôn clyfar neu dabled. Mae'n bwysig helpu pobl i ddefnyddio eu dyfeisiau i gyd-fynd â'u hanghenion; gall hynny olygu llwytho ap i lawr, trefnu apwyntiadau neu sefydlu gwasanaethau ffrydio teledu."*

*"Gallwn helpu gyda phob math o wybodaeth sydd ei hangen ar ein preswylwyr. Gallai hyn gynnwys creu cyfrif e-bost, gosod ap negeseuon neu ddefnyddio ap siopa archfarchnad. Mae'r sesiynau'n helpu preswylwyr i ddeall sut y gall technoleg ddigidol wella eu bywydau."*

**Mae Joan yn un o'r trigolion a gafodd gymorth cynhwysiant digidol. Dywedodd Joan:** *"Rwy'n elwa'n fawr o'r sesiynau gyda Gill. Heddiw, dangosodd i mi sut i drefnu apwyntiad meddyg ar-lein, a sut i ddefnyddio fy ffôn fel dyddiadur, a fydd yn help mawr i mi!*

*"Byddwn yn bendant yn argymell y sesiynau cynhwysiant digidol; mae gan Gill ffordd hyfryd, nid yw'n fy rhuthro ac mae bob amser yn gwenu. Mae ei holl ymarweddiad wir yn fy helpu i ddysgu, ac rydw i'n hapus yn gweithio gyda hi."*

## Cyflogaeth, addysg a sgiliau

Parhaodd ein rhaglen Project SEARCH, sydd wedi'i lleoli yn Llys Raddington, i ddarparu profiad gwaith a chyfleoedd lleoliad gwerthfawr, gan gefnogi cyfranogwyr i ddatblygu sgiliau, ennill profiad a gwella rhagolygon cyflogaeth yn y dyfodol.

Yn Llys Marchan, cefnogwyd preswylwyr i fanteisio ar gyfleoedd addysgol, cyflogaeth a gweithgareddau ymgysylltu â'r gymuned, gan helpu unigolion i fagu hyder, annibyniaeth a chysylltiadau cymdeithasol.




Thema 8:

# Creu lleoedd

## Adeiladu cymunedau cryfach

**Ledled ein cymunedau, rydym yn parhau i hwyluso gweithgareddau sy'n dod â phobl at ei gilydd ac yn lleihau arwahanrwydd cymdeithasol.**

**Mae enghreifftiau yn cynnwys:**

- Gweithgareddau sy'n pontio'r cenedlaethau sy'n cynnwys ysgolion lleol
- Grwpiau rhieni a phlant bach
- Grwpiau darllen cymunedol
- Gweithgareddau cymdeithasol a lles i bobl hŷn

Mae'r mentrau hyn yn helpu i gryfhau cysylltiadau cymunedol, cefnogi llesiant meddyliol a chreu cyfleoedd i drigolion o bob oed ymgysylltu â'i gilydd a chefnogi ei gilydd.





## Hyrwyddo llesiant ac annibyniaeth mewn llety byw â chymorth

Cymerodd preswylwyr sy'n byw yn ein gwasanaethau Byw â Chymorth ran mewn amrywiaeth eang o weithgareddau a gynlluniwyd i wella lles, magu hyder ac annog ffyrdd iach o fyw.

**Roedd y gweithgareddau'n cynnwys:**

- Digwyddiadau lles
- Cynadleddau a chyfleoedd dysgu
- Gweithgareddau awyr agored
- Hyfforddiant ymwybyddiaeth o gyffuriau
- Cynlluniau cyfranogiad cymunedol

Roedd y cyfleoedd hyn yn galluogi preswylwyr i ddatblygu sgiliau newydd, cryfhau gwytnwch a chynyddu eu hannibyniaeth ar yr un pryd â lleihau arwahanrwydd cymdeithasol a gwella llesiant cyffredinol.

# 158 o breswylwyr

**wedi cael cymorth gyda phryderon ynghylch lles**

Drwy gymorth wedi'i dargedu, cynhwysiant ariannol, gwasanaethau llesiant a rhaglenni cymunedol, rydym yn parhau i greu effaith gymdeithasol gadarnhaol, gan helpu preswylwyr i fyw'n annibynnol, meithrin gwytnwch a ffynnu yn eu cymunedau.

## Buddsoddiad cymunedol ac effaith gymdeithasol

Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn gweithgareddau a phartneriaethau sy'n cryfhau cymunedau, yn lleihau arwahanrwydd cymdeithasol ac yn creu cyfleoedd i drigolion ffynnu.

## Ymgysylltu â’r gymuned

Yn ystod 2025/26, bu ein timau Tai a Chartrefi Fforddiadwy yn gweithio gyda phartneriaid lleol i gynnal wyth digwyddiad cymunedol, gan gefnogi dros 240 o drigolion ledled Gogledd Cymru.










# 240 o breswylwyr

**Wedi'u cefnogi drwy ddigwyddiadau a gweithgareddau cymunedol**

# 8 digwyddiad

**Wedi cael eu cynnal ledled cymunedau Gogledd Cymru**

Roedd y digwyddiadau'n cynnwys gweithgareddau tymhorol i deuluoedd, diwrnodau glanhau cymunedol, digwyddiadau llesiant a chynulliadau cymdeithasol ar gyfer trigolion hŷn. Ochr yn ochr â chreu cyfleoedd i breswylwyr gysylltu â'i gilydd, roedd y digwyddiadau hyn yn darparu mynediad at gymorth ymarferol, gan gynnwys cyngor ar fudd-daliadau lles, canllawiau effeithlonrwydd ynni, gwybodaeth am ddiogelwch cymunedol a gwasanaethau cymorth tai.

## ASTUDIAETHAU ACHOS

### Pini y Gath yn Symud i Lys y Waun



Mae cartref yn rhywle lle gall preswylwyr deimlo'n gyfforddus ac wedi'u cysylltu; ac mae'r agwedd hon ar greu lleoedd yn eithriadol o bwysig yn yr amgylchedd gofal.

Yn Llys y Waun, mae dyfodiad cath ddwy oed wedi'i hachub wedi cynnig cyfeillgarwch, cysur ac ymdeimlad o gysylltiad i breswylwyr; yn ogystal ag annog sgwrsio ac hel atgofion.

Daeth Pini (sy'n dalfyriad o Pinata) yn aelod poblogaidd o gymuned Llys y Waun yn gyflym ac mae'n helpu i gefnogi lles preswylwyr a chreu'r amgylchedd cartrefol sy'n gwella ansawdd bywyd.

**Dywedodd Jane Humphreys, rheolwr yn Llys y Waun:** *"Ers croesawu Pini i Lys y Waun, rydym wedi gweld effaith gadarnhaol ar breswylwyr a chydweithwyr. Mae Pini yn dod ag ymdeimlad o gwmnïaeth a chwarëusrwydd; gan oleuo ystafell pan fydd hi'n cerdded i mewn. Mae hi'n ased go iawn i gartref Ceiriog ac rydyn ni i gyd yn mwynhau ei chael hi o gwmpas!"*





### Trigolion Llys Raddington yn Derbyn Gwobr Gymunedol y Maer

Daeth preswylwyr ein cynllun byw'n annibynnol yn y Fflint at ei gilydd i greu arddangosfa pabïau arobryn ar gyfer Dydd y Cofio, a drawsnewidiodd ofod a rennir yn lle i fyfyrio a chofio.


Fe wnaethon nhw gynllunio, saernïo a chydweithio; gan weithio gyda'i gilydd i greu gosodiad trawiadol i nodi 80 mlynedd ers diwedd yr Ail Ryfel Byd.

**Dewisodd Maer Fflint, y Cynghorydd Russell Davies, y preswylwyr i dderbyn Gwobr Gymunedol y Maer. Dywedodd:** *"Mae eu creadigrwydd a'u hymroddiad wedi cynhyrchu teyrnged hyfryd ac ystyrlon, gan anrhydeddu diwrnod mor arbennig o gofio. Diolch i chi am eich amser, eich ymdrech a'ch gwaith ysbrydoledig."*

Dyma enghraifft o greu lleoedd dan arweiniad preswylwyr ar waith; bod o fudd i gymuned, dathlu hunaniaeth, gwella llesiant ac ehangu ysbryd cymunedol.

## Diogelwch bwyd a gwytnwch ariannol

Gwnaethom barhau i gefnogi ein prosiect rhandiroedd cymunedol yn Garden City, gan ddarparu cyfleoedd i drigolion ddysgu sgiliau newydd, magu hyder a chryfhau cysylltiadau cymunedol.



# 22 o blotiau gweithredol

**Yn cael eu defnyddio yn rhandir Garden City**

Mae'r prosiect hefyd wedi cefnogi datblygu gwirfoddolwyr, gyda thrigolion yn ysgwyddo cyfrifoldebau arwain a rheoli safle fel rhan o'u taith tuag at gyflogaeth a mwy o annibyniaeth.

Oherwydd ei lwyddiant, mae ail brosiect tyfu cymunedol wedi cael ei nodi yn y Rhyl.

**ASTUDIAETH ACHOS**

## Canolfan prydau bwyd a locer bwyd newydd yn cynnig dewisiadau bwyd iach, maethlon a fforddiadwy i breswylwyr




Mae ymestyn ein partneriaeth â'r fenter gymdeithasol a'r darparwr bwyd fforddiadwy, Well-Fed, yn helpu i sicrhau ein bod yn gallu cynnig prydau maethlon a fforddiadwy i fwy o'n preswylwyr.

Gan fynd i'r afael ag ansicrwydd bwyd, a chostau byw cynyddol, rydym wedi cydweithio â Well-Fed i sefydlu Canolfan Prydau Bwyd newydd yn y Rhyl a chynllun Locer Bwyd yn Llanelwy. Mae hyn yn dod â chyfanswm nifer y Canolfannau Prydau Bwyd Well-Fed sydd ar gael ledled yr ardal i chwech.

Wedi'i lleoli yn Adeilad y Drindod Sanctaidd yn y Rhyl ar dir eglwys Sant Thomas, mae'r Ganolfan Prydau Bwyd newydd yn cynnig dewis amrywiol o becynnau bwyd a phecynnau coginio araf am gost fforddiadwy, gyda chymhorthdal. Ar yr un pryd, mae defnyddwyr y Ganolfan Prydau Bwyd yn cael yr hyder a'r sgiliau sydd eu hangen arnynt i ddeall sut i fwydo eu hunain a'u teuluoedd yn dda!

**Dywedodd un preswylydd sy'n mynd i'r hyb bwyd:** *"Mae'r hyb bwyd yn syniad gwych, mae'n adnodd gwych i'n cymuned ond mae hefyd yn gofalu am ein hiechyd. Rwy'n credu bod gan y prosiect botensial gwych i dyfu a helpu mwy o bobl."*

## Cynhwysiant digidol

Mae mynediad at dechnoleg yn hanfodol ar gyfer bywyd bob dydd. Yn ystod 2025/26, fe wnaethom gyflwyno cynllun peilot Cynhwysiant Digidol a ariennir gan Lywodraeth Cymru i helpu trigolion i oresgyn rhwystrau i gysylltedd, dyfeisiau a sgiliau digidol.



**125 o breswylwyr**

**Wedi'u cefnogi drwy'r rhaglen beilot**

**33 o ddyfeisiau newydd**

**Wedi'u darparu i breswylwyr**

**2 ddyfais wedi'u hadnewyddu**

**Wedi'u dosbarthu i gartrefi**

Cafodd preswylwyr gymorth personol drwy ymweliadau cartref, sesiynau grŵp a sesiynau galw heibio digidol. Roedd y cymorth yn cynnwys cael gafael ar wasanaethau ar-lein, gosod dyfeisiau, gwella diogelwch digidol a datblygu hyder wrth ddefnyddio technoleg.

Cynlluniwyd y cynllun peilot yn wreiddiol i gefnogi 40 o breswylwyr a rhagorodd yn sylweddol ar y targed hwn.

## Gofal ychwanegol a gwasanaethau arbenigol

Rydym yn parhau i fuddsoddi mewn gwasanaethau tai a gofal arbenigol sy'n cefnogi annibyniaeth, lles ac ansawdd bywyd.

Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom agor Cynllun Gofal Ychwanegol Neuadd Maldwyn mewn partneriaeth â Chyngor Sir Powys, gan greu cartrefi newydd sy'n helpu preswylwyr hŷn i aros yn annibynnol tra'n cael gafael ar ofal a chymorth pan fo angen.




**Gwnaed buddsoddiad hefyd ar draws cynlluniau presennol, gan gynnwys:**

- Gwelliannau i gartrefi a mannau cymunedol yng Ngorwel Newydd
- Gosod systemau teleofal modern i wella diogelwch ac annibyniaeth
- Datblygu cyfleusterau seibiant ac addasiadau arbenigol
- Ehangu gweithgareddau a arweinir gan breswylwyr sy'n cefnogi llesiant a chyfranogiad cymunedol



Mae preswylwyr yn parhau i chwarae rhan gynyddol weithredol yn y gwaith o gynllunio a darparu gweithgareddau cymdeithasol ledled ein cymunedau Gofal Ychwanegol.

## Llys y Waun

Drwy gyllid partneriaeth, datblygodd Llys y Waun ardd synhwyraidd a mannau lles awyr agored i breswylwyr.

Cafodd y prosiect gydnabyddiaeth genedlaethol, gan gynnwys cydnabyddiaeth mewn llythyr gan y Brenin Charles III, a sicrhawyd cyllid ychwanegol i greu ystafell synhwyraidd bwrpasol yn y cartref.

Mae digwyddiadau cymunedol rheolaidd, grwpiau cymorth a sesiynau gwybodaeth yn parhau i gryfhau'r cysylltiadau rhwng y cartref gofal, teuluoedd preswylwyr a'r gymuned ehangach.





## Llys Marchan

Yn Llys Marchan, mae gwelliannau i fannau awyr agored a chyfleusterau cymunedol wedi creu cyfleoedd ychwanegol ar gyfer ymgysylltu cymdeithasol, annibyniaeth a llesiant.

Cymerodd preswylwyr ran mewn digwyddiadau cymunedol ac ymgyrchoedd ymwybyddiaeth drwy gydol y flwyddyn, gan helpu i leihau stigma ynghylch iechyd meddwl a chryfhau cynhwysiant cymunedol.

## Gwasanaethau byw â chymorth

Parhaodd ein gwasanaethau Byw â Chymorth i ganolbwyntio ar helpu preswylwyr i fagu hyder, annibyniaeth a chysylltiadau cymunedol cryfach.

**Cymerodd preswylwyr ran yn y canlynol:**

- Digwyddiadau lles a chymunedol.
- Sesiynau hyfforddi ac ymwybyddiaeth.
- Gweithgareddau awyr agored.
- Prosiectau ac arddangosfeydd creadigol.
- Rhaglenni ymgysylltu â'r gymuned.

Roedd y gweithgareddau hyn yn helpu preswylwyr i ddatblygu sgiliau newydd, gwella llesiant a chymryd rhan lawnach ym mywyd y gymuned.



## Gwerth cymdeithasol drwy gaffael

Ein nod yw sicrhau bod ein buddsoddiad mewn cartrefi a gwasanaethau yn creu buddion cymdeithasol ac economaidd ehangach i gymunedau lleol.

Mae ystyriaethau gwerth cymdeithasol wedi'u gwreiddio yn ein prosesau caffael, gyda chyflenwyr yn cael eu hannog i sicrhau canlyniadau fel:

- Cyfleoedd cyflogaeth lleol
- Prentisiaethau a lleoliadau profiad gwaith
- Cymorth i fusnesau lleol a chadwyni cyflenwi
- Mentrau buddsoddi cymunedol
- Canlyniadau cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Mae'r ddarpariaeth yn cael ei monitro drwy drefniadau rheoli contractau ac mae'n rhan o adolygiadau perfformiad parhaus cyflenwyr.

## 17 o brentisiaethau

**Wedi cael cefnogaeth ledled prosiectau datblygu mawr**

## 3 lleoliadau profiad gwaith

**Wedi eu cyflawni drwy bartneriaethau datblygu**

## Hyd at 100%

**O'r gwariant prosiect wedi'i gadw yng Nghymru mewn rhai cynlluniau**

Drwy weithio gyda chyflenwyr sy'n rhannu ein hymrwymiad i werth cymdeithasol, rydym yn manteisio i'r eithaf ar effaith gadarnhaol ein buddsoddiad ac yn helpu i gefnogi economïau lleol, datblygu sgiliau a chyfleoedd cyflogaeth ledled Gogledd Cymru.

### Cipolwg ar effaith gymunedol

## 240 o breswylwyr

**wedi ymgysylltu drwy ddigwyddiadau cymunedol**

## 125 o breswylwyr

**wedi cael cefnogaeth drwy fentrau cynhwysiant digidol**

## 20 o breswylwyr

**wedi cael eu cefnogi drwy fentrau peilot Hyb Bwyd**

## 22 o blotiau rhandiroedd gweithredol

**yn cefnogi lles a chysylltiadau cymunedol**

## Neuadd Maldwyn


**wedi ei hagor i ddarparu cartrefi Gofal Ychwanegol newydd**

Mae'r mentrau hyn yn dangos sut rydym yn creu gwerth cymdeithasol y tu hwnt i dai, gan helpu preswylwyr a chymunedau i feithrin gwytnwch, gwella llesiant a chael gafael ar gyfleoedd sy'n cefnogi llwyddiant hirdymor.



Dathlu interniaid Prosiect SEARCH - dathlodd Alex, Hannah ac Emma (graddedigion, yn y llun o'r chwith i'r dde) gyflawniad personol a phroffesiynol enfawr; graddio o'u hinterniaethau Project SEARCH llwyddiannus gyda ClwydAlyn, menter sy'n cefnogi oedolion ifanc ag anawsterau dysgu neu awtistiaeth i dreulio blwyddyn gyda sefydliad lletyol i helpu i feithrin parodrwydd ar gyfer gwaith a meithrin sgiliau a hyder.

ASTUDIAETH ACHOS




## Angharad Kellett, Swyddog Gwaith Cyfalaf ClwydAlyn, yn cael ei choroni'n 'Brentis y Flwyddyn mewn Gweinyddu a Gwasanaethau Cwsmeriaid' yng Ngrŵp Llandrillo Menai, Seremoni Gwobrau Dysgu Seiliedig ar Waith Gogledd Cymru

Ym mis Chwefror 2026. Gorffennodd Angharad ei phrentisiaeth gyda Grŵp Llandrillo Menai ac ymunodd â ClwydAlyn ar ôl ei chwblhau'n llwyddiannus. Dewisodd ddatblygu ei gyrfa ym maes tai a thynnwyd sylw at ei thaith a'i chyflawniadau mewn fideo a ryddhawyd gan Grŵp Llandrillo Menai, lle mae Angharad yn rhannu sut roedd y brentisiaeth yn darparu sylfaen gref ac yn paratoi'r ffordd iddi ddilyn gyrfa yn y sector tai cymdeithasol.

Ers ymuno â ClwydAlyn, mae Angharad wedi bod yn ychwanegiad rhagorol i'r Tîm Eiddo. Mae ei sgiliau wedi bod yn werthfawr i ddull ClwydAlyn o reoli data, ymgysylltu â phreswylwyr, a chyfathrebu.

Roedd Angharad, a astudiodd ar gyfer cymhwyster Lefel 4 mewn Gweinyddu Busnes, yn falch o gael ei chydnabod fel Prentis y Flwyddyn, Gweinyddu Busnes, Manwerthu a Gwasanaethau Cwsmeriaid.

**Dywedodd:** *"Rwy'n credu mai'r peth gorau am ddilyn prentisiaeth yw gallu dysgu yn y gwaith a chael cefnogaeth gan eich cyflogwyr ar yr un pryd. Mae hefyd yn wych gallu gwneud arian wrth ddysgu oherwydd os wyt ti yn yr ysgol, dwyt ti ddim yn gwneud hynny. Roedd prentisiaeth yn wych i mi a thrwy wneud fy mhrentisiaeth dysgais sgiliau newydd; roedd yn wych gallu dysgu ar fy nghyflymder fy hun a gwneud fy ngwaith fy hun."*




# Llywodraethiant

**Mae llywodraethu da yn allweddol i gyflawni ein cenhadaeth i roi diwedd ar dlodi - dyna sut rydyn ni'n gwneud yn siŵr ein bod ni'n gwneud yr hyn sy'n iawn i'n sefydliad, ein preswylwyr a'n cydweithwyr.**

Thema 9:

## Strwythur a Llywodraethiant

**Mae Llywodraeth Cymru yn rheoleiddio ac yn monitro darparwyr tai cymdeithasol yng Nghymru yn ofalus i sicrhau bod tenantiaid yn cael eu diogelu.** Mae'r fframwaith rheoleiddio yn seiliedig ar fodel cyd-reoleiddio, sy'n golygu bod sefydliadau'n cadw annibyniaeth weithredol tra bo byrddau'n dal yn atebol ac yn cael eu goruchwylio'n effeithiol.

**Mae'r dull hwn yn sicrhau ein bod yn:**

**● Cael ei llywodraethu'n dda**
Cael ein harwain gan fyrddau, swyddogion gweithredol a staff galluog sy'n gwneud penderfyniadau cadarn a strategol wrth weithio'n agos gyda thenantiaid a phartneriaid.

**● Darparu cartrefi a gwasanaethau o ansawdd uchel**
Darparu cartrefi a gwasanaethau sy'n diwallu ystod eang o anghenion, gyda ffocws cryf ar ansawdd, gwerth am arian, a gwelliant parhaus.

**● Cadarn yn ariannol**
Cynnal rheolaeth ariannol gref, gyda'r adnoddau a'r llif arian sydd eu hangen i fodloni rhwymedigaethau presennol ac ymrwymiadau yn y dyfodol.

Yn ogystal â bodloni safonau rheoleiddio, mae ein proffil credyd yn adlewyrchu ein ffocws ar osod tai cymdeithasol, sy'n darparu incwm sefydlog a rhagweladwy. Cefnogir hyn gan sefyllfa gref yn y farchnad yng Nghymru a dull darbodus o fenthyca, a adlewyrchir mewn lefelau gerio isel.

Rydym hefyd yn elwa o'r fframwaith rheoleiddio cryf sy'n llywodraethu Cymdeithasau Tai Cymru.



Mae ein cartrefi gofal wedi cael y sgôr rheoleiddio uchaf gan Arolygiaeth Gofal Cymru

**Sgôr Moodys – Aa3** Sefydlog

**Sgôr Standard & Poors – 'A'** Sefydlog

**Cawsom sgoriau gwyrdd ar gyfer llywodraethu a darparu gwasanaethau a hyfywedd ariannol yn ein dyfarniad rheoleiddio diweddaraf, y sicrwydd uchaf o dan y fframwaith**



Bu aelodau o'n timau arwain gweithredol ac uwch-reolwyr yn ymweld â datblygiad Stryd Builder yn Llandudno. Bydd y datblygiad hwn yn darparu 100% o dai fforddiadwy â nodweddion cynaliadwy a chostau rhedeg isel, mewn ardal lle mae diffyg wedi'i nodi'n annibynnol.


## Rheoli risg

Yn ystod y flwyddyn, cynhaliodd ein Bwrdd adolygiad cynhwysfawr o'n fframwaith rheoli risg, gan sicrhau ei fod yn parhau i fod yn gadarn, yn gymesur ac yn ymatebol i amgylchedd gweithredu cymhleth.

Mae ein Bwrdd yn monitro effeithiolrwydd y fframwaith, gan ddarparu goruchwyliaeth a her i gefnogi'r broses o wneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth.

Rydym yn defnyddio'r model Tair Llinell Amddiffyn i gefnogi llywodraethu cryf a darparu sicrwydd, ac mae ein risgiau strategol a gweithredol yn cael eu hadolygu'n rheolaidd gan y Tîm Gweithredol, y Bwrdd a'r Pwyllgorau i nodi unrhyw risgiau a chyfleoedd sy'n dod i'r amlwg.

Rydym yn mynd ati'n rhagweithiol i fonitro heriau allanol gan gynnwys ansicrwydd economaidd, pwysau costau byw a newidiadau gwleidyddol a rheoleiddiol i liniaru eu heffaith bosibl.




**Tair llinell amddiffyn**

Mae ystyriaethau amgylcheddol, cymdeithasol a llywodraethu wedi'u gwreiddio'n llawn yn ein fframwaith risg.

Rydym hefyd yn asesu ac yn monitro risgiau sy'n gysylltiedig â'r blaenoriaethau hyn, gan gynnwys:

- Datgarboneiddio
- Lleihau tlodi
- Gwytnwch hinsawdd
- Llesiant cwsmeriaid
- Llywodraethiant
- Gwerth cymdeithasol
- Diwylliant sefydliadol



Thema 10:

# Y Bwrdd

## Amrywiaeth a chynrychiolaeth

**Mae ein llywodraethu'n cael ei gryfhau drwy ymgysylltu'n weithredol â phreswylwyr, cydweithwyr a phartneriaid, gan sicrhau bod penderfyniadau'n cael eu llywio gan amrywiaeth eang o safbwyntiau.**

Mae llais preswylwyr yn ganolog. Mae sianeli ymgysylltu hyblyg yn galluogi preswylwyr i siapio gwasanaethau a blaenoriaethau, ac mae strwythurau ffurfiol - gan gynnwys cynrychiolaeth y Bwrdd a'r Pwyllgor Preswylwyr - yn rhoi sicrwydd ynghylch perfformiad, profiad cwsmeriaid a chyfeiriad strategol.

Rydym yn gwreiddio cydgynhyrchu ar draws y sefydliad, gan gynnwys preswylwyr mewn adolygiadau gwasanaeth, gwaith datblygu polisi a gweithgarwch gwella. Rydym wedi ymrwymo i wrando ar breswylwyr, gweithredu ar eu hadborth a gwneud newidiadau i'n gwasanaethau i adlewyrchu'r hyn sy'n bwysig iddyn nhw.

**Mae ein llywodraethu'n seiliedig ar amrywiaeth eang o safbwyntiau a phrofiadau bywyd er mwyn i ni allu gwneud penderfyniadau gwell sy'n cael yr effaith fwyaf ar ein preswylwyr, ein cymunedau a'n partneriaid.**



Mae gwrando ar ein cydweithwyr hefyd yn rhan hanfodol o'n dull llywodraethu. Mae ein Fforwm Staff yn darparu mecanwaith i gydweithwyr rannu adborth, herio cynigion a dylanwadu ar benderfyniadau. Mae'r Fforwm yn cael ei gynrychioli yn ein strwythur llywodraethu drwy ein Pwyllgor Pobl ac mae cynrychiolwyr cydweithwyr yn cymryd rhan mewn diwrnodau cwrdd i ffwrdd y Bwrdd.

Rydym yn gweithio'n agos gydag awdurdodau lleol, partneriaid iechyd, sefydliadau cymunedol, cyrff y sector a phartneriaid cyllido i ddeall safbwyntiau allanol amrywiol i lywio sut rydym yn gwneud penderfyniadau ac yn datblygu ein dealltwriaeth o'r cymunedau rydym yn eu gwasanaethu. Mae ein cynllun dylanwadu ar randdeiliaid yn cael ei adolygu'n flynyddol gan y bwrdd i sicrhau bod ein gwaith dylanwadu yn parhau i gyd-fynd â'n hamcanion strategol a'n cenhadaeth tlodi.

# Dod â phartneriaid at ei gilydd i edrych ar weithredu ar y cyd i roi terfyn ar dlodi

Ym mis Medi 2025, daethom ag amrywiaeth eang o bartneriaid rhanbarthol at ei gilydd i lansio ein Cynllun Corfforaethol 2025 - 2030, ond gyda ffocws ehangach o lawer i ymgysylltu â phartneriaid lleol a chenedlaethol ac arweinwyr cymunedol i archwilio sut gallwn weithio ar y cyd i roi diwedd ar dlodi lle mae ein blaenoriaethau'n cyd-fynd.

Denodd y digwyddiad ffigurau gwleidyddol amlwg, arweinwyr y trydydd sector, arweinwyr agweddau a gweithwyr proffesiynol ym maes tai. Ymunodd pedwar siaradwr dylanwadol â'n Prif Swyddog Gweithredol, Clare Budden, a rannodd eu safbwyntiau ar argyfwng tlodi Cymru, gan gynnwys cyflwynydd Newyddion ITV Cymru Carole Green, arweinydd ymarfer Do-Well Ken Perry, Carol Shillabeer, Prif Weithredwr Bwrdd








Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr (BIPBC) a Steffan Evans, Cyfarwyddwr Sefydliad Bevan.

Mynegodd y siaradwyr gefnogaeth ar y cyd i ffocws clir ClwydAlyn ar roi diwedd ar ddigartrefedd, darparu cartrefi cynnes a diogel a gweithio gyda phartneriaid i sicrhau mynediad at fwydydd fforddiadwy da yn eu holl gymunedau.



"Mae newid parhaol yn digwydd pan fyddwn ni'n gweithio gyda'n gilydd. Rydym yn unedig yn ein hymrwymiad i fod yn fwy dewr a mentrus wrth wynebu'r heriau hyn ac wrth ddod o hyd i atebion cydweithredol sy'n cynnig gobaith a chyfleoedd i'n cymunedau."
**– Cris McGuinness · Cadeirydd y Bwrdd, ClwydAlyn**

"Roedd yn bleser gennyf gyflwyno a gwrando ar y siaradwyr eraill yn y digwyddiad, i gyflawni'r weledigaeth o roi terfyn ar dlodi yng Ngogledd Cymru, dan arweiniad ClwydAlyn. Mae iechyd a thai yn bileri lles anwahanadwy; pan fyddan nhw'n gweithio gyda'i gilydd, maen nhw'n gwneud mwy na dim ond lleihau tlodi, maen nhw'n meithrin gwytnwch, urddas a chyfleoedd i bawb." **- Carol Shillabeer · Prif Weithredwr, Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr**



## Amrywiaeth wrth recriwtio

Rydym wedi gwneud newidiadau i'r ffordd rydym yn recriwtio i bob rôl, gan gynnwys i'n Bwrdd, ein Pwyllgorau a'n Tîm Gweithredol, i gefnogi ein hymrwymiad i gydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant. Mae hyn yn cynnwys cyflwyno system tracio ymgeiswyr newydd i roi gwell gwelededd i ni ar draws y daith recriwtio a'n galluogi am y tro cyntaf i fonitro data EDI gan bob ymgeisydd, nid dim ond y rhai sy'n cael eu rhoi ar y rhestr fer neu eu penodi, gan roi darlun llawnach i ni o bwy sy'n gwneud cais am ein rolau a lle gallai fod angen i ni wella allgymorth neu gael gwared ar rwystrau.

Rydym hefyd yn adolygu disgrifiadau swydd a hysbysebion mewn perthynas ag iaith gynhwysol, anwahaniaethol a hygyrchedd, gan gael gwared ar jargon a'i ddisodli ag iaith gliriach sy'n seiliedig ar werthoedd.

## Trosiant y Bwrdd a'r Rheolwyr

Mae gan Fwrdd ClwydAlyn 13 o aelodau gyda chymysgedd amrywiol o sgiliau, profiadau a safbwyntiau gan gynnwys→



- **2** Cyfarwyddwr Gweithredol
- **2** Preswylydd sy'n Aelodau'r Bwrdd
- **9** Cyfarwyddwr Anweithredol Annibynnol - 84.62%

Roedd cyfradd trosiant ein Bwrdd rhwng 2024 -2026 yn **15.38%** dros y cyfnod o ddwy flynedd, gan ddod â'r cyfle i ddod â safbwyntiau ac arbenigedd newydd i ystafell y Bwrdd.

Trosiant ein tîm Gweithredol dros y ddwy flynedd ddiwethaf oedd **33.33%**



Cafodd Cyfarwyddwr Adnoddau Gweithredol ClwydAlyn ei chydnabod fel cyfarwyddwr ariannol arweiniol y rhanbarth yng Ngwobrau Cyfarwyddwr Ariannol y Flwyddyn 2025 i gydnabod ei harweinyddiaeth ariannol gref.



"Mae effeithlonrwydd yn fy nghymell i; oherwydd po fwyaf effeithlon y gallwn fod, y mwyaf o wasanaethau y gallwn eu darparu a'r bobl y gallwn eu helpu. Mae hynny'n rhywbeth rwy'n meddwl amdano'n aml. Faint o bobl y gallwn eu hatal rhag dod yn ddigartref neu symud allan o lety dros dro anaddas? Mae'n bwysig iawn i mi ac i bawb yn ClwydAlyn." **–Sandy Murray · Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau, ClwydAlyn**

## Pwyllgor Sicrwydd

Mae ein Pwyllgor Sicrwydd yn chwarae rhan allweddol yn y gwaith o oruchwylio adroddiadau ariannol, rheoli risg, rheolaethau mewnol a chydymffurfiaeth reoleiddiol yn annibynnol.

Mae'n cael ei gefnogi gan arbenigedd ariannol a masnachol, dan arweiniad y Cyfarwyddwr Gweithredol Adnoddau, sydd â thros 25 mlynedd o brofiad ar draws gwasanaethau ariannol, trysorlys a chorfforaethol, gan sicrhau rheolaeth ariannol gadarn a gwneud penderfyniadau ar sail gwybodaeth.

## Gwelliant parhaus

Yn 2026, fe wnaethom gomisiynu Campbell Tickell i gynnal adolygiad annibynnol o'n trefniadau llywodraethu, perfformiad y Bwrdd, prosesau gwneud penderfyniadau a sut rydym yn cyd-fynd ag arferion da yn y sector.

Roedd hyn yn rhoi sicrwydd gwerthfawr ac annibynnol ac yn nodi cyfleoedd i ni gryfhau ein fframwaith llywodraethu ymhellach. Mae cynllun gweithredu wedi cael ei ddatblygu i gyflawni'r gwelliannau a nodwyd, sydd wedi cael eu cymeradwyo gan y Bwrdd a byddant yn cael eu monitro'n rheolaidd.

## Gwrthdaro rhwng buddiannau

Rydym wedi ymrwymo i gynnal y safonau uchaf o ran uniondeb ac atebolrwydd, gan weithredu mewn diwylliant agored, tryloyw ac ymddiriedus.

Mae gennym ddisgwyliad clir y bydd unrhyw wrthdaro rhwng buddiannau, boed yn wirioneddol, yn bosibl neu'n dybiedig, yn cael ei ddatgelu'n brydlon. Mae'n ofynnol i holl aelodau'r Bwrdd a'r Pwyllgor, yn ogystal â chydweithwyr, ddatgan unrhyw wrthdaro wrth iddynt godi.

I atgyfnerthu hyn, gofynnir i Aelodau'r Bwrdd ar ddechrau pob cyfarfod ddatgan unrhyw fuddiannau sy'n gysylltiedig â'r agenda. Os bydd achos prin o wrthdaro, mae'n ofynnol i'r unigolyn dynnu'n ôl o drafodaethau a phenderfyniadau cysylltiedig.

**Mae ein fframwaith llywodraethu yn seiliedig ar y canlynol:**


- Cadw at Atodlen Un Deddf Tai 1996
- Y Cod Ymddygiad rydym wedi'i fabwysiadu
- Gwerthoedd ein sefydliad, sy'n arwain ymddygiad moesegol a phenderfyniadau.



**Ymddiriedaeth**



**Caredigrwydd**



**Gobaith**

Mae holl Aelodau'r Bwrdd yn llofnodi cytundeb gwasanaeth sy'n amlinellu eu cyfrifoldebau, yn ymrwymo i'r Cod Ymddygiad, ac yn cwblhau datganiadau blynyddol o fuddiannau, a gaiff eu diweddaru yn ôl yr angen drwy gydol y flwyddyn.

Rhaid datgan unrhyw berthynas bersonol neu amgylchiadau a allai achosi gwrthdaro i'r Cadeirydd neu Brif Weithredwr y Grŵp. Mae ein rheolau yn rhoi arweiniad clir ar ddelio â buddiannau sy'n ymwneud â budd ariannol neu fudd personol, gan sicrhau bod uniondeb ac ymddiriedaeth y cyhoedd yn parhau i fod yn ganolog i'n harferion llywodraethu.

Thema 11:

# Lles staff

**Mae cefnogi lles ein cydweithwyr yn hanfodol er mwyn creu cymunedau ffyniannus.**

Rydym wedi ymrwymo i greu gweithle lle mae pobl yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu cefnogi a'u bod yn gallu bod ar eu gorau yn y gwaith.

Yn ystod y 12 mis diwethaf, rydym wedi parhau i gryfhau ein darpariaeth llesiant, gan ganolbwyntio ar iechyd corfforol ac iechyd meddwl ar yr un pryd â meithrin diwylliant lle mae gofyn am gymorth yn cael ei annog a lle mae sgyrsiau llesiant yn rhan o fywyd gwaith bob dydd.

## Lles meddyliol


Drwy gydol y flwyddyn, mae cydweithwyr wedi cael mynediad at amrywiaeth o adnoddau a gwasanaethau sydd wedi'u cynllunio i ddarparu cymorth ataliol ac ymyrraeth gynnar. Roedd hyn yn cynnwys mynediad at y canlynol:

- Swyddogion cymorth cyntaf iechyd meddwl hyfforddedig - ar hyn o bryd mae gennym dros 140 o swyddogion cymorth cyntaf iechyd meddwl
- Gwasanaethau iechyd galwedigaethol
- Manteision llesiant a ffordd o fyw drwy VivUp, ein cynllun buddion i weithwyr
- Hyfforddiant gwytnwch
- Sgyrsiau lles anffurfiol ac ymgyrchoedd ymwybyddiaeth wedi'u targedu
- Hyrwyddo mentrau lles cenedlaethol drwy gydol y flwyddyn gan gynnwys Wythnos Ymwybyddiaeth Iechyd Meddwl a Diwrnod Rhyngwladol y Dynion, gan helpu i leihau stigma ac annog sgyrsiau agored am iechyd meddwl
- Cymorth personol un-i-un i unrhyw gydweithwyr yr oedd ei angen arnynt i ddarparu mynediad at ymyriadau wedi'u targedu a gwasanaethau arbenigol fel cwnsela, cynlluniau cymorth yn y gweithle, gwasanaethau cymorth cam-drin domestig, timau iechyd meddwl cymunedol ac atgyfeiriadau iechyd galwedigaethol lle bo hynny'n briodol.

## Ein cydweithwyr

**Rydym yn gyflogwr Cyflog Byw Gwirioneddol***

LIVING WAGE EMPLOYER



**Bwlch cyflog rhwng y rhywiau:**

**16.79%**

(wedi gostwng o 20.45% yn 2024/25)



**Cymhareb cyflog rhwng y Prif Swyddog Gweithredol a'r gweithiwr:**

**Canolrif**

(50fed) canradd - £27,549

***Bwlch cyflog cymedrig:** y gwahaniaeth mewn cyflog cyfartalog rhwng dynion a merched. Bwlch cyflog canolrifol: y gwahaniaeth mewn cyflog y dyn sy'n cael tâl canolrif y sefydliad a'r fenyw sy'n cael tâl canolrifol y sefydliad.



**Daethom yn gyflogwr Ystyriol o Endometriosis yn ystod y flwyddyn, gyda phedwar hyrwyddwr hyfforddedig yn y gweithle ar gael i ddarparu cymorth, arweiniad, dealltwriaeth a chefnogaeth i gydweithwyr y mae'r cyflwr yn effeithio arnynt**

Endometriosis Friendly Employer

## Llesiant corfforol

Rydym yn cydnabod bod iechyd corfforol yn chwarae rhan bwysig mewn llesiant cyffredinol ac rydym wedi parhau i fuddsoddi mewn mentrau sy'n annog ffyrdd iachach o fyw a gofal iechyd ataliol.

Yn ystod y flwyddyn, cynigiwyd y canlynol i gydweithwyr:

- Cymhorthdal ar gyfer aelodaeth o gampfa
- Brechiadau ffliw am ddim dros y gaeaf i helpu i ddiogelu iechyd yn ystod y misoedd oerach
- Mynediad at frechiadau HEP B i'r rheini sy'n gweithio mewn rhannau risg uchel o'r busnes
- Asesiadau iechyd yn y gweithle, gan roi cipolwg gwerthfawr i gydweithwyr ar ddangosyddion iechyd allweddol fel pwysedd gwaed, lefelau colesterol a risgiau iechyd sy'n gysylltiedig â ffordd o fyw.
- Mae profion llygaid am ddim yn parhau i fod yn rhan o'n cynnig, ochr yn ochr â ffisiotherapi a thriniaeth osteopathi lle bo angen.

Mae ein cyfathrebiadau llesiant rheolaidd wedi hyrwyddo dewisiadau ffordd iach o fyw, gan gynnwys cyngor ac arweiniad sy'n ymwneud â maeth, ymarfer corff, cwsg, llesiant ariannol a chynnal cydbwysedd iach rhwng bywyd a gwaith.

Drwy ddarparu adnoddau ymarferol a gwybodaeth iechyd hygyrch, ein nod yw grymuso cydweithwyr i wneud dewisiadau cadarnhaol sy'n cefnogi eu llesiant hirdymor.




Ym mis Ionawr, gwahoddwyd cydweithwyr i ymuno â 'Her Camau'. Roedd yr aelodau staff hynny a oedd eisiau cymryd rhan yn ffurfio timau ac yn cofnodi eu cyfrif camau drwy gydol y mis. Roedd yn her boblogaidd iawn a sbardunodd amrywiaeth o 'gyfarfodydd cerdded' a theithiau meithrin tîm. Ar draws y sefydliad, roedd cydweithwyr gyda'i gilydd wedi cerdded dros 21,000 km yn ystod y mis!

**34%**

Dywedodd 34% o gydweithwyr a gafodd gymorth llesiant unigol fod yr ymyriad wedi helpu i'w hatal rhag cymryd absenoldeb salwch neu adael y sefydliad yn gyfan gwbl.

**20%**

Gwelsom ostyngiad sylweddol mewn absenoldeb salwch sy'n gysylltiedig ag iechyd meddwl gyda nifer y diwrnodau a gollwyd yn gostwng 20%

## Creu diwylliant llesiant cefnogol

Ochr yn ochr â chymorth llesiant uniongyrchol, rydym wedi parhau i ganolbwyntio ar greu diwylliant sefydliadol lle mae llesiant yn cael ei ddeall, ei gefnogi a'i wreiddio ar draws y busnes.

Yn ystod y flwyddyn, fe wnaethom ailddylunio ein hadnoddau llesiant a'n tudalennau cymorth, gan ei gwneud yn haws i gydweithwyr nodi a chael gafael ar y cymorth mwyaf priodol ar gyfer eu hamgylchiadau unigol. Fe wnaethom hefyd ddatblygu canllawiau penodol i reolwyr i helpu arweinwyr lywio drwy sgyrsiau llesiant a chyfeirio cydweithwyr yn hyderus at y cymorth sydd ar gael.

Mae rheolwyr yn chwarae rhan hollbwysig mewn perthynas â lles cydweithwyr. Yn ystod 2025/26, darparwyd cymorth ac arweiniad wedi'i deilwra i 37 o reolwyr gan eu helpu i gefnogi aelodau tîm sy'n wynebu heriau iechyd meddwl a galluogi ymyriadau cynharach lle cododd pryderon.

Er mwyn sicrhau bod llesiant yn dal yn weladwy drwy gydol y flwyddyn, mae cydweithwyr yn cael cylchlythyrau llesiant bob deufis sy'n rhoi sylw i bynciau fel iechyd meddwl, iechyd corfforol, llesiant ariannol, cymorth i deuluoedd a ffynonellau cymorth yn y sefydliad a'r tu allan iddo.








# Dod â chydweithwyr at ei gilydd i ddathlu llwyddiant ac edrych tua'r dyfodol

Ym mis Rhagfyr 2025, daeth dros 400 o gydweithwyr o bob rhan o ClwydAlyn at ei gilydd ar gyfer ein digwyddiad staff ym Mharc Eirias, Bae Colwyn.

Wedi'i ddatblygu a'i gyflwyno'n gyfan gwbl gan staff yn gwirfoddoli, roedd y digwyddiad mawr, a oedd yn cynnwys marchnad Nadolig a gweithgareddau hwyliog i gydweithwyr gymryd rhan ynddynt, yn gyfle i lansio ein Cynllun Corfforaethol newydd i gydweithwyr a chodi ymwybyddiaeth o'n cenhadaeth a'n blaenoriaethau tlodi.

Yn bwysig, roedd y digwyddiad hefyd yn ein galluogi i godi ymwybyddiaeth o'r manteision a'r cymorth lles y gall cydweithwyr ClwydAlyn fanteisio arnynt, yn ogystal â dathlu ymroddiad a chyflawniadau ein cydweithwyr sy'n gweithio'n galed bob dydd i wneud gwahaniaeth i'n trigolion a'n cymunedau drwy ein gwobrau staff.

Cafodd pawb ddathliad Nadoligaidd llawn hwyl!









## Cydraddoldeb, amrywiaeth a chynhwysiant

Rydym wedi gwneud gwelliannau a chynnydd sylweddol o ran ein hymrwymiadau EDI dros y pum mlynedd diwethaf. Gan adeiladu ar y gwaith hwn, yn 2025/26 fe wnaethom adnewyddu a diweddaru ein cynllun cydraddoldeb a chynhwysiant a fydd yn cwmpasu cyfnod o dair blynedd, yn unol â fframwaith safon ansawdd, cydraddoldeb ac amrywiaeth Tai Pawb.

Fel arbenigwyr y sector mewn perthynas â hyrwyddo cydraddoldeb a chyfiawnder cymdeithasol ym maes tai yng Nghymru, rydym yn parhau i weithio gyda Tai Pawb i gael sicrwydd allanol ynghylch ein dull gweithredu EDI.

Fe wnaethom lofnodi addewid Gweithredoedd Nid Geiriau 2.0 Tai Pawb ym mis Ionawr 2026, gan ailddatgan ein hymrwymiad i fynd i'r afael â gwahaniaethau hiliol ym maes tai drwy weithredu ar bedair thema'r addewid, sef:

- Sefyll yn erbyn hiliaeth: Gweithredu dulliau dim goddefgarwch tuag at hiliaeth a mynd i'r afael â naratifau negyddol am gymunedau mudwyr.
- Mynd i'r afael â gwahaniaethau tai: Canfod ac unioni annhegwch o ran atgyweirio, cynnal a chadw a mynediad at dai.
- Hyrwyddo cynrychiolaeth: Creu cyfleoedd i unigolion ethnig leiafrifol ymgymryd â rolau arwain a sicrhau gwell cynrychiolaeth staff.
- Defnyddio data ac ymgysylltu: Sbarduno newid drwy gasglu data, olrhain cynnydd, a gwrando ar leisiau'r rheini sydd â phrofiad bywyd.




Mae'r cynnydd allweddol eleni yn cynnwys:

- Cryfhau gallu rheolwyr drwy hyder anabledd a hyfforddiant addasiadau rhesymol.
- Hyrwyddo cynhwysiant drwy ymgyrchoedd ar draws y sefydliad (e.e. Wythnos Cynhwysiant, Wythnos Cydraddoldeb Hil, Wythnos Dathlu Niwroamrywiaeth, Pride).
- Ymuno â Chyflogwyr Cynhwysol i wella dysgu, cymorth a sicrwydd allanol.
- Cefnogi rhwydweithiau cydweithwyr, gan gynnwys y Rhwydwaith Cynhwysiant, Hafan Pawb, cymorth niwroamrywiaeth gan gymheiriaid, ac Un To (diwylliant ac ethnigrwydd).
- Ehangu hyfforddiant EDI i'r Bwrdd a'r staff, gan ganolbwyntio ar bynciau fel gwrth-hiliaeth a niwroamrywiaeth.
- Gwreiddio ein Fframwaith Gwneud Penderfyniadau Cynhwysol i sicrhau bod safbwyntiau amrywiol yn siapio strategaethau a pholisïau.
- Gwella recriwtio cynhwysol drwy hysbysebion swyddi mwy hygyrch a chynllun gwarantu cyfweliad i ymgeiswyr anabl sy'n bodloni meini prawf hanfodol.

**Drwy ein rhaglen mentora tu chwith a oedd yn canolbwyntio ar niwroamrywiaeth yn y gweithle, fe wnaethom wrando ar brofiadau ein cydweithwyr a gwneud newidiadau ar sail yr hyn a ddysgom. Roedd hyn yn cynnwys creu 'ystafell dawel' yn ein pencadlys ar gyfer cydweithwyr a ddywedodd wrthym fod angen lle tawel arnynt i ffwrdd o amgylchedd swyddfa sy'n aml yn fwy swnllyd, i weithio ar eu gorau.**






## ASTUDIAETH ACHOS



# Llwyddiant Cynhadledd am yr Ail Flwyddyn

Cefnogi Pobl Awtistig yn y Gweithle a Thu Hwnt

Roedd cynhadledd a sefydlwyd gan reolwr prosiect ClwydAlyn, Paul Taylor, sy'n addysgu cyflogwyr ar y ffordd orau o gefnogi staff ag awtistiaeth, yn llwyddiant ysgubol pan ddychwelodd i Brifysgol Wrecsam ym mis Mawrth 2026.

Mae'r digwyddiad yn gynhadledd sy'n cael ei chynnal gan ClwydAlyn, mewn partneriaeth â phractis arweinyddiaeth, Do-Well, a gyda chefnogaeth gan Brifysgol Wrecsam.

Ac yntau'n rheolwr prosiect yn ein tîm Gwybodaeth Busnes a Thrawsnewid, roedd Paul yn allweddol yn y gwaith o sefydlu, dyfeisio a threfnu'r gynhadledd, sydd bellach yn ei hail flwyddyn.

Roedd y digwyddiad yn llwyfan i amrywiaeth o siaradwyr â phrofiad bywyd o awtistiaeth, ochr yn ochr â gwaith grŵp a oedd yn canolbwyntio ar werth cynhwysiant. Helpodd i gysylltu pobl o bob rhan o Ogledd Cymru ac addysgu cynrychiolwyr i ddysgu mwy am gefnogi pobl ag awtistiaeth yn y gweithle. Roedd hyn yn cynnwys ffyrdd ymarferol a gweithredadwy o ymrwymo i wneud newid go iawn yn eu gweithleoedd eu hunain.


*"Gweithwyr awtistig sy'n wynebu'r bwlch cyflog ehangaf. Mae yna rai newidiadau systemig syml iawn y gall cyflogwyr eu gwneud, a fyddai'n gwneud gwahaniaeth enfawr i bobl sy'n niwroamrywiol; mae cynwysoldeb yn golygu nad oes rhaid i neb ei chael hi'n anodd.*

*"Mae angen i ni normaleiddio trafodaethau am niwroamrywiaeth ac awtistiaeth; a chreu rhwydwaith o bobl, sy'n gallu cefnogi'r anawsterau a gwneud i'r cryfderau ddisgleirio."*
**Paul Taylor, Rheolwr Prosiect, ClwydAlyn**

Cymerodd dros 40 o bobl o sefydliadau cyhoeddus, preifat ac elusennol ran yn y digwyddiad, gan gynnwys Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, Cyngor Sir Conwy a Sir Ddinbych, Cyngor Gwynedd, Cyngor Sir Ddinbych, Grŵp Cynefin, CEF Berwyn, Gwasanaeth Tân ac Achub Gogledd Cymru, Cyngor Wrecsam, We Mind the Gap, Trafnidiaeth Cymru a Serco.

Fel rhan o'r digwyddiad, gwnaeth y cynrychiolwyr addewidion gweithredadwy yr ymrwymwyd i'w rhoi ar waith yn eu gweithleoedd, gan gynnwys cyfweld ar sail gwerthoedd a darparu cwestiynau cyfweliad ymlaen llaw, i gynlluniau mentora tu chwith a mwy o hyfforddiant ac ymwybyddiaeth i reolwyr.

Mae gwaith arall dan arweiniad Paul drwy gydol y flwyddyn i godi ymwybyddiaeth o niwroamrywiaeth yn y gweithle yn ogystal â datblygu ein rhwydwaith cymorth gan gymheiriaid dan arweiniad cydweithwyr, Hafan Pawb i sbarduno newid yn ClwydAlyn, yn cynnwys sefydlu Rhwydwaith Niwroamrywiaeth i Gymru, sy'n dod â chyflogwyr at ei gilydd o gymdeithasau tai ledled Cymru i rannu a dysgu o arferion da.




## Datblygiad proffesiynol

Rydyn ni'n credu mewn buddsoddi yn ein pobl i sicrhau bod gan gydweithwyr y sgiliau a'r wybodaeth i gyflawni eu rolau'n ddiogel ac yn effeithiol a'u bod yn gallu datblygu eu gyrfaoedd yn y ffordd maen nhw'n ei dewis.

Mae ein cyllidebau hyfforddi yn sicrhau bod staff yn cael yr wybodaeth ddiweddaraf am amrywiaeth o hyfforddiant cydymffurfio craidd, newidiadau deddfwriaethol a'r syniadau diweddaraf yn eu sector.


Y llynedd, fe wnaethom gefnogi 22 aelod o staff i ennill amrywiaeth o gymwysterau proffesiynol allanol gan gynnwys; Tai, Cyfrifeg, Arweinyddiaeth a Rheolaeth, Rheoli Adnoddau Dynol, Caffael i Iechyd a Gofal Cymdeithasol, Arlwyo a Diogelwch Adeiladau. Mae pob un o'r rhain yn gwella eu gwybodaeth arbenigol a'u hyder i ddarparu gwasanaethau rhagorol i'n preswylwyr ac yn sicrhau diogelwch adeiladwaith ein cartrefi preswyl.

Rydym hefyd yn ad-dalu staff am eu haelodaeth broffesiynol sy'n caniatáu i staff gael mynediad at adnoddau dysgu ychwanegol drwy eu corff dyfarnu proffesiynol.

## Rheoli talent

Rydym wedi cyflwyno dull newydd o Reoli Talent ac erbyn hyn mae gennym well dealltwriaeth o 'iechyd' ein gweithlu o ran sgiliau ac rydym wedi gallu nodi staff sydd â photensial uchel a'r rheini a allai fod angen cymorth ychwanegol.

Bydd hyn yn ein galluogi i sicrhau bod gan bob cydweithiwr y cynlluniau datblygu cywir ar waith




i'w helpu i dyfu a bod ganddynt y sgiliau cywir ar gyfer eu rolau presennol neu yn y dyfodol.

Rydym hefyd wedi lansio System Rheoli Dysgu newydd sy'n cynnwys lle i osod cynlluniau datblygu, adolygiadau 1:1 a chofnodi datblygiad proffesiynol parhaus. Mae cael yr adnoddau hyn yn caniatáu i staff barhau i gydymffurfio, yn rhoi mynediad hawdd iddynt at ddysgu ar-lein ar gyfer hunan-ddatblygiad ac yn annog dysgu parhaus, gan wella ymgysylltiad staff a chyfraddau cadw staff.

Rydym wedi parhau i gyflwyno ein rhaglen datblygu arweinyddiaeth sy'n cynnwys modiwlau i uwchsgilio mewn hyfforddi, rheoli newid, datrys gwrthdaro ac uniaethu ag eraill. Mae'r rhaglen hon wedi datblygu ein rheolwyr, gan roi cyfle iddynt hunanfyfyrio ar eu harddulliau arwain eu hunain a gwella sut maent yn arwain timau drwy ein gwerthoedd.



Thema 12:

# Y gadwyn gyflenwi

## Darparu gwerth cymdeithasol

Mae gwerth cymdeithasol yn rhan greiddiol o'r ffordd rydym yn rheoli ein proses gaffael. Mae'n cael ei arwain gan reoliadau cenedlaethol yn ogystal â blaenoriaethau ein sefydliad ein hunain. Rydym yn darparu ac yn mesur gwerth cymdeithasol mewn tair prif ffordd: drwy fodloni gofynion rheoleiddio, ei gynnwys yn ein penderfyniadau caffael, a sicrhau ei fod yn creu buddion go iawn i gymunedau lleol.

## Bodloni ein gofynion rheoleiddio

Mae creu buddion cymdeithasol ac economaidd yn amod gofynnol o'n cyllid gan Grant Tai Cymdeithasol Llywodraeth Cymru. Rydym yn monitro ein canlyniadau caffael yn ofalus gan ddefnyddio Pecyn Cymorth Buddion Cymunedol Llywodraeth Cymru, sy'n darparu gwiriadau annibynnol ac archwiliad terfynol ar ôl i bob prosiect gael ei gwblhau.

Ar ben hynny, fel rhan o'n Strategaeth Twf (2025-2030), rydym wedi ymrwymo i gynnal Asesiadau manwl o'r Effaith ar y Gymuned ar gyfer pob prosiect newydd. Mae'r asesiadau hyn yn ein helpu i olrhain, mesur a gwella effaith gymdeithasol pob datblygiad o'r camau cynllunio cynharaf hyd at ei gwblhau.

## Integreiddio Caffael Strategol: Y Strategaeth Ysgogi Gwerth

Rydym yn symud i ffwrdd oddi wrth drin gwerth cymdeithasol fel strategaeth ar wahân ac yn hytrach yn ei ymgorffori'n uniongyrchol yn y ffordd rydym yn prynu nwyddau a gwasanaethau. Drwy ein Strategaeth Ysgogi Gwerth newydd, rydym yn cysylltu mesurau gwerth cymdeithasol â'n dangosyddion perfformiad caffael craidd. Mae hyn yn golygu bod disgwyl i bob punt rydym yn ei gwario greu buddion cymdeithasol ac economaidd ehangach i'n preswylwyr a'n cymunedau lleol.

Mae'r dull hwn hefyd yn cryfhau sut rydym yn mesur ac yn rheoli perfformiad, gyda thargedau clir ac atebol ar gyfer ein timau mewnol a'n cyflenwyr. Mae'n dangos nad yw gwerth cymdeithasol yn gost ychwanegol, ond yn rhan hanfodol o ddarparu effeithlonrwydd hirdymor, gwasanaethau cryfach, a sefydliad mwy gwydn.



## Darpariaeth Economaidd-Gymdeithasol Leol: Uchafbwyntiau Perfformiad

Dangosir ein hymrwymiad i gefnogi cymunedau lleol drwy greu swyddi, datblygu sgiliau, a chadw buddsoddiad yn yr economi ranbarthol:

- Swyddi, sgiliau a phrentisiaethau: Mae ein prosiectau'n creu cyfleoedd go iawn i bobl leol. Ar draws safleoedd, rydyn ni wedi darparu nifer o brentisiaethau, rolau dan hyfforddiant a lleoliadau gwaith, gan helpu i feithrin sgiliau a chyflogaeth hirdymor yn yr ardaloedd rydyn ni'n eu gwasanaethu.
- Effaith economaidd leol: Rydym yn blaenoriaethu cyflenwyr lleol i gadw arian yn economi Cymru. Mae prosiectau diweddar wedi cadw rhwng 82% a 100% o wariant ar gontractau yng Nghymru, gan sicrhau bod buddsoddiad o fudd uniongyrchol i fusnesau a chymunedau lleol.

**Mae enghreifftiau yn cynnwys:**

- Yn ein datblygiad yng Nghegidfa ym Mhowys, darparodd Williams Homes chwe phrentisiaeth, gan gadw £6.95 miliwn o'r £7.1 miliwn a wariwyd ar gontractau yng Nghymru.
- Cefnogodd Castle Green Homes saith prentis yn ein datblygiad Stryd y Ffynnon ym Mwcle (uchod). Hefyd, penododd K&C Construction bedwar prentis trydanol arbenigol yng Nghae Rhos, Ynys Môn
- Yng Nghraig y Don, Ynys Môn, mae 100% o'r £3.2 miliwn sydd wedi cael ei wario hyd yma wedi cael ei gadw'n gyfan gwbl gan Williams, y contractwyr a chyflenwyr o Gymru.

## ASTUDIAETH ACHOS

# Gweithio mewn partneriaeth â DU Construction i ddarparu man dysgu ysbrydoledig yn yr awyr agored i ysgolion cynradd lleol

Fel rhan o'n hamcanion gwerth cymdeithasol, fe wnaethom ariannu amgylchedd dysgu awyr agored newydd sbon ar gyfer myfyrwyr Ysgol Goronwy Owen ym Menllech, a gyflawnwyd gan DU Construction o Gaergybi.

Mae'r man awyr agored newydd wedi'i ddylunio'n arbennig i ysbrydoli archwilio, darganfod, dychymyg a chwilfrydedd. Mae'n cynnwys tywarch pob tywydd, caban gwylio, gwesty chwilod, pot plannu mawr, seddi yn yr awyr agored, bwrdd sialc, îsl yn yr awyr agored a mwy.

Hefyd, ym Menllech, bydd datblygiad gwerth £6.5 miliwn ClwydAlyn, Craig y Don, yn darparu 17 o gartrefi newydd fforddiadwy ac ynni effeithlon i'r gymuned yng nghanol Ynys Môn. Mae'r cartrefi hyn yn cael eu hadeiladu gan DU Construction ar ran ClwydAlyn ac mewn partneriaeth â Chyngor Ynys Môn a Llywodraeth Cymru.



**Dywedodd y pennaeth, Dr Elfed Morgan Morris:**

*"Rydw i eisiau mynegi fy niolchgarwch dwysaf a mwyaf didwyll am yr ardal ddysgu awyr agored anhygoel rydych chi wedi'i greu i ni drwy eich prosiect cyllid cymunedol. Mae eich gwaith nid yn unig wedi trawsnewid gofod ffisegol, ond hefyd wedi trawsnewid yr union bosibiliadau o ran yr hyn y gall dysgu fod i'n plant."*

*Rydych chi wedi rhoi amgylchedd i'r plant sy'n ennyn chwilfrydedd ac yn meithrin cariad at yr awyr agored. Mae'n amgylchedd a fydd yn siapio'r ffordd maen nhw'n profi dysgu am byth. Mae hynny'n waddol anhygoel, ac yn un y byddwn bob amser yn ei thrysori."*



## Llywodraethu, Monitro a Sicrwydd

Rydym yn olrhain ac yn rheoli gwerth cymdeithasol drwy fframwaith llywodraethu clir sy'n cysylltu cyflawni prosiectau ag uwch oruchwyliaeth ac atebolrwydd.

- Perfformiad a goruchwyliaeth: Mae gwerth cymdeithasol yn rhan annatod o'n prosesau caffael a rheoli contractau, ochr yn ochr â chost, ansawdd a pherfformiad. Rydym yn cyflwyno Dangosyddion Perfformiad Allweddol Gwerth Cymdeithasol clir, a fydd yn cael eu monitro a'u hadrodd ar lefel uwch i sicrhau perfformiad ac atebolrwydd cyson.
- Rheoli contractau: Mae ymrwymiadau gwerth cymdeithasol a wneir gan gyflenwyr yn rhan o ddisgwyliadau cytundebol. Mae'r rhain yn cael eu hadolygu drwy gyfarfodydd perfformiad rheolaidd, a gofynnir i gyflenwyr ddarparu tystiolaeth o ganlyniadau fel swyddi lleol, hyfforddiant a mentrau cymunedol. Pan fydd perfformiad yn ddiffygiol, rydym yn gweithio gyda chyflenwyr i sbarduno gwelliant.
- Effaith leol wedi'i thargedu: Mae Asesiadau Effaith ar y Gymuned (CIA), sy'n ofynnol o dan ein Strategaeth Twf (2025-2030), yn helpu i sicrhau bod gweithgareddau'n cael eu teilwra i anghenion lleol ac yn sicrhau manteision ystyrlon o'r cychwyn cyntaf.
- Dilysu annibynnol: Mae'r holl ganlyniadau gwerth cymdeithasol yn cael eu dilysu'n allanol drwy Becyn Cymorth Buddion Cymunedol Llywodraeth Cymru, gan ddarparu dull tryloyw a chyson o fesur ein heffaith.



ClwydAlyn

## Rhagor o wybodaeth a gweithio gyda ni

Os hoffech chi gael rhagor o wybodaeth am unrhyw ran o'r gwaith rydyn ni wedi tynnu sylw ato yn adroddiad ESG eleni, neu os hoffech chi archwilio sut gallwn ni weithio gyda'n gilydd lle mae ein blaenoriaethau'n alinio o ran ein cenhadaeth i roi diwedd ar dlodi yng Ngogledd Cymru, cysylltwch â ni.

**@ClwydAlyn**

**www.clwydalyn.co.uk · 0800 183 5757**
**e-bost: help@clwydalyn.co.uk**

Mae ClwydAlyn yn Gymdeithas Gofrestredig Elusennol